

BRITISH COUNCIL | Wales Cymru

IEITHOEDD RHYNGWLADOL MEWN YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD YNG NGHYMRU

# TUEDDIADAU IEITHOEDD YNG NGHYMRU

## ADRODDIAD YMCHWIL 2019

wales.britishcouncil.org

BRITISH COUNCIL | Wales Cymru

IEITHOEDD RHYNGWLADOL MEWN YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD YNG NGHYMRU

# TUEDDIADAU IEITHOEDD YNG NGHYMRU

## ADRODDIAD YMCHWIL 2019

GAN TERESA TINSLEY, ALCANTARA COMMUNICATIONS
DADANSODDIAD DATA GAN NEELA DOLEZAL A VYTAUTĖ KEDYTĖ

wales.britishcouncil.org

# CYFLWYNIAD

*Mae adroddiad Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru eleni'n cyflwyno canfyddiadau'r pumed arolwg blynyddol o ysgolion uwchradd yng Nghymru yn ogystal â'r ail arolwg o'i fath o ysgolion cynradd. Nod y gwaith oedd casglu gwybodaeth am gyflwr presennol addysgu a dysgu Ieithoedd Tramor Modern (ITM)[1] yng Nghymru. Amcan yr adroddiad yw asesu effaith mesurau polisi o ran ieithoedd a dadansoddi cryfderau a gwendidau ar sail tystiolaeth feintiol ar y naill law a sylwadau gan athrawon ar y llall.*

**"OS SIARADWCH Â DYN MEWN IAITH MAE'N EI DEALL, MAE HYNNY'N CYSYLLTU Â'I BEN.**

**OS SIARADWCH AG EF YN EI FAMIAITH, MAE HYNNY'N GWREIDDIO YN EI GALON."**

NELSON MANDELA

Yn 2016, cafodd ysgolion cynradd yng Nghymru eu harolygu am y tro cyntaf i sefydlu llinell sylfaen o ran darpariaeth ITM/ieithoedd rhyngwladol yng nghyd-destun dyheadau Llywodraeth Cymru i weld dysgu'r pwnc yng Nghyfnod Allweddol 2 fel rhan o gynllun Dyfodol Byd-eang (2015-2020).[2]

Cynhaliwyd arolwg eleni rhwng mis Mawrth a mis Mai 2019 ac fe gasglwyd tystiolaeth gan 155 o ysgolion cynradd a 114 o ysgolion uwchradd. Roedd cyfran yr ymateb yma gan ysgolion cynradd ychydig yn is nag yn 2016 (15%) ac yn is na gan ysgolion uwchradd yn 2018 (65%). Ond roedd y samplau a gafwyd yn cyfateb yn dda â phroffiliau ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws Cymru o ran eu dosbarthiad rhanbarthol, ystod oedran y disgyblion, mathau o ysgol a chyfryngau iaith y dysgu (ceir manylion llawn yn yr Atodiad).

Wrth gyfateb ymatebion yr ysgolion â data sydd ar gael i'r cyhoedd am nodweddion fel cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYD), rhanbarth, math o ysgol a chyfrwng iaith y dysgu, roeddem ni'n gallu chwilio am amlygiad patrymau o ran darpariaeth ac ymarfer ar draws Cymru.[3] Caiff y rhain eu nodi yn y testun pan maent yn arwyddocaol yn ystadegol.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rhagflaenir canlyniadau'r arolwg gyda dadansoddiad o'r cofrestriadau diweddaraf (2019) ar gyfer TGAU a Lefel A, sy'n dangos y tueddiad o ran y nifer sy'n dewis astudio ITM yng Nghymru ers blynyddoedd cynnar y 2000au. Mae'r wybodaeth yma'n gosod ymatebion yr ysgolion mewn cyd-destun ehangach gan daflu goleuni sy'n ddefnyddiol wrth eu dehongli.

1. Yn yr adroddiad yma, wrth gyfeirio at ddatblygiadau o ran y cwricwlwm newydd, rydym ni'n defnyddio'r term 'ieithoedd rhyngwladol' ac 'ITM' (Ieithoedd Tramor Modern') wrth gyfeirio at y pwnc a ddysgir fel rhan o'r cwricwlwm uwchradd cyfredol.
2. Llywodraeth Cymru. 2015. *'Dyfodol Byd-eang, cynllun i wella a hybu darpariaeth ieithoedd tramor modern yng Nghymru (2015-2020)'*. Gweler hefyd, adroddiadau'r flwyddyn gyntaf (**https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-dyfodol-byd-eang-blwyddyn-ers-dechrau-ein-cynllun**) a'r ail flwyddyn (**https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-dyfodol-byd-eang-dwy-flynedd-ers-dechrau-ein-cynllun**).
3. Eleni darparwyd y data ar PYD yng Nghymru fel ffigurau craidd wedi'u talgrynnu i fyny i'r 5 agosaf. Gydag ysgolion lle ataliwyd y data, gan fod y ffigurau craidd rhwng 0 a 4, defnyddiwyd pwynt canolig o 2 i amcangyfrif y canrannau.

# CEFNDIR A CHYD-DESTUN POLISI

Mae tair ystyriaeth allweddol, a nodwyd yn arolwg llynedd, yn parhau i ddominyddu cyd-destun polisi adroddiad eleni:

- Dirywiad parhaus a hir dymor addysgu a dysgu Ieithoedd Tramor Modern (ITM) mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno polisi *'Dyfodol Byd-eang 2015-2020'* i fynd i'r afael â hyn a gwella sefyllfa ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg.
- Dyhead i gyflwyno dysgu 'ieithoedd rhyngwladol' i'r cwricwlwm cynradd fel yr amlinellir yn y cwricwlwm newydd i Gymru, yn ogystal â'r uchelgais sy'n rhan o gynllun Dyfodol Byd-eang i ddatblygu system 'Dwyieithog a Mwy'.
- Y potensial aruthrol am gyfegni rhwng dysgu Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol yn rhinwedd y cwricwlwm newydd, sy'n agor y drws i'r cysyniad o integreiddio'r holl bynciau iaith.

Roedd arolygon eleni'n archwilio ystyriaethau sy'n berthnasol i'r themâu hyn, ac wrth i bryder am 'ddiffyg gallu mewn ieithoedd' y Deyrnas Unedig gynyddu, fe fuom yn edrych hefyd ar agweddau ehangach ynghylch dysgu ieithoedd a gwerth hynny i unigolion a chymdeithas.

### IEITHOEDD RHYNGWLADOL MEWN YSGOLION CYNRADD

Gosodwyd dyhead Llywodraeth Cymru i ddatblygu ITM yng Nghyfnod Allweddol 2 fel rhan o gynllun 'Dyfodol Byd-eang' mewn cyd-destun cliriach yng ngolau'r cwricwlwm newydd a fydd yn cyflwyno un Maes Dysgu a Phrofiad penodol ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu i blant o dair oed[4] ymlaen.

Yn 2016, dim ond 28% o'r ysgolion a ymatebodd i'r arolwg a nododd eu bod yn darparu rhywfaint o wersi ieithoedd tramor. Ond, mewn astudiaeth effaith a gyhoeddwyd yn gynharach eleni gwelwyd fod ysgolion cynradd sydd wedi cyflwyno ieithoedd rhyngwladol yn nodi amryw o effeithiau cadarnhaol ar ddisgyblion gan gynnwys gwelliant mewn sgiliau llythrennedd a llafaredd yn ogystal â chynydd mewn sgiliau cyfathrebu ac awydd i ddysgu.[5] Roedd arolwg eleni'n chwilio am dystiolaeth o gynydd o'i gymharu â llinell sylfaen 2016.

### EFFAITH CYNLLUN 'DYFODOL BYD-EANG' A CHYNLLUNIO AR IEITHOEDD RHYNGWLADOL YN Y CWRICWLWM NEWYDD

Yng ngoleuni'r adolygiad o gynllun Dyfodol Byd-eang sydd ar y gorwel, holwyd yr ysgolion cynradd ac uwchradd i ba raddau yr oeddynt wedi defnyddio neu fanteisio ar y gweithgareddau a ddarparwyd gan y fenter a pha fath o gefnogaeth y byddent yn ei groesawu yn y dyfodol. Holwyd yr ysgolion uwchradd i ba raddau yr oeddent yn credu fod cynllun Dyfodol Byd-eang wedi gwella sefyllfa ITM; os oedd eu hadran ITM eisoes wedi bod yn cynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd; yn ogystal â'u barn am ragolygon eu pwnc. Gofynnwyd iddynt hefyd am eu safbwyntiau ar ddatblygu darpariaeth dysgu ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion cynradd ac i ba raddau y maent eisoes yn gweithio gyda'u hysgolion bwydo lleol ar faterion yn ymwneud ag ieithoedd.

Holwyd ysgolion cynradd nad ydynt yn dysgu ieithoedd rhyngwladol ar hyn o bryd am sut yr oeddynt yn rhagweld darparu ar gyfer hyn gyda golwg ar Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu'r cwricwlwm newydd.

## DIRYWIAD YN NIFER Y DISGYBLION SY'N DEWIS ITM YNG NGHYFNOD ALLWEDDOL 4 AC ÔL-16

Ers blynyddoedd cynnar y 2000au, bu dirywiad difrifol yn nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU a Lefel A mewn ITM yng Nghymru. Mae arolygon blaenorol Tueddiadau Ieithoedd Cymru wedi dangos sut mae ITM wedi cael eu gwthio i'r cyrion yn gynyddol yn ysgolion uwchradd Cymru. Priodolir y dirywiad yma i amryw o ystyriaethau: tybiaeth fod cynnwys cyrsiau ac arholiadau ITM yn anoddach na phynciau eraill; amser annigonol yn y cwricwlwm; amserlennu opsiynau pwnc; y gwerth isel a roddir ar sgiliau iaith; a diffyg atebolrwydd o ran cynyddu'r niferoedd sy'n dewis ITM. Mae adroddiad eleni'n archwilio'r ffactorau yma ymhellach yn ogystal â bwrw golau ar ystyriaethau eraill.

Roedd adroddiad Tueddiadau Iaith llynedd yn tynnu sylw at ddifrifoldeb y dirywiad parhaus yn nifer y disgyblion Ôl-16 sy'n dewis astudio ITM. Â chofio natur frys y sefyllfa, mae adroddiad eleni hefyd wedi neilltuo cryn amser i ymchwilio'r elfennau sy'n dylanwadu ar y tueddiad yma yn y cyfnod Ôl-16. Yn haf 2018 derbyniodd disgyblion ac ysgolion ganlyniadau cyntaf yr arholiadau TGAU a Lefel A newydd mewn Ieithoedd Tramor Modern. Felly, roedd ein harolwg ni eleni yn rhoi'r cyfle cyntaf i athrawon uwchradd nodi pa fath o ymateb a fu iddynt yn eu hysgolion a'r effaith a gawsant ar ddysgu a dewisiadau pynciau'r disgyblion.

## AGWEDDAU A FFACTORAU CYMDEITHASOL

Mae arolygon Tueddiadau Ieithoedd blaenorol wedi dangos fod cysylltiad rhwng y nifer isel o ddisgyblion sy'n dewis ITM ar gyfer TGAU ag ysgolion mewn ardaloedd llai breintiedig a ddynodir gan y gyfran o'u disgyblion sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim, ac unwaith eto rydym ni'n archwilio hyn.

Mae'r pryder am 'ddiffyg gallu mewn ieithoedd' yn y Deyrnas Unedig wedi bod yn cynyddu ers sawl blwyddyn. Er gwaethaf tystiolaeth ddiymwad o bwysigrwydd ieithoedd ar gyfer masnach a busnes ac ymchwil sy'n dangos fod cyflogwyr yn ystyried ieithoedd fel 'sgil â gwerth ychwanegol'[6] mae'n ymddangos nad yw'r neges am werth dysgu ieithoedd yn gwreiddio. Mae clymblaid o sefydliadau, gan gynnwys y British Council, wedi ymuno â'r Academi Brydeinig i alw am strategaeth genedlaethol i ysgogi gwell ymgysylltiad â gweddill y byd, gan ddatgan mai 'unieithrwydd yw anllythrennedd yr unfed ganrif ar hugain'.[7]

Mae'r arolwg yn ymchwilio i agweddau rhieni a chymunedau lleol yr ysgolion at ddysgu ieithoedd rhyngwladol; agwedd uwch arweinwyr mewn ysgolion at ITM; a ph'un ai yw Brexit yn effeithio ar gymhelliad pobl ifanc i astudio ieithoedd tramor a/neu'r Gymraeg.


4 Llywodraeth Cymru, *'Dyfodol Llwyddiannus - Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Asesu'r Cwricwlwm yng Nghymru'*, Yr Athro Graham Donaldson, 2015. Mae'n fwriad rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith drwy Gymru gyfan erbyn 2022.

5 British Council Cymru: *'Datblygu Amlieithrwydd Mewn Ysgolion Cynradd yng Nghymru: Asesiad o'r Prif Effeithiau'*. Ymchwil Arad Research 2019

6 Yr Academi Brydeinig, *'Born Global – Rethinking Language Policy for 21st Century Britain'* (2013)

7 Yr Academi Brydeinig, *'Languages in the UK. A call for action'* (2019) **www.thebritishacademy.ac.uk/publications/languages-ukacademies-statement**

# ARHOLIADAU




Newidiadau yn nifer y cofrestriadau ar gyfer ITM rhwng 2015-19 a 2010-14

| | Ffrangeg | Almaeneg | Sbaeneg | ITM i gyd | Pob pwnc TGAU |
|---|---|---|---|---|---|
| 2015-2019 | -35% | -37% | -16% | -28% | +9% |
| 2010-2014 | -29% | -33% | -7% | -25% | -7% |

Dros y pum mlynedd diwethaf, bu gostyngiad o 28% yn nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU mewn ieithoedd. Gwelwyd gostyngiad o 35% o ran Ffrangeg a 37% o ran Almaeneg yn ystod y cyfnod hwn. Er bod Sbaeneg yn cynnig darlun ychydig mwy sefydlog, bu gostyngiad o 16% yn nifer y cofrestriadau rhwng 2015 a 2019.[8] Yn 2019, gwelwyd cynnydd o 2% i 580 o gofrestriadau ar gyfer ieithoedd modern 'eraill'[9], sydd tua 10% o gyfanswm y cofrestriadau ar gyfer ieithoedd.


Rhwng 2018 a 2019, fe barhaodd patrwm y dirywiad yma gyda gostyngiad cyffredinol o 7% yn y cofrestriadau ar gyfer TGAU mewn Ieithoedd Tramor Modern; gyda gostyngiad o 14% mewn Ffrangeg a 24% mewn Almaeneg o'i gymharu â 2018. Ond gwelwyd cynydd o 28% mewn Sbaeneg, gan adfer rhywfaint o ddirywiad y flwyddyn flaenorol.

Roedd yna bryder yn barod am y dirywiad cyflym yn nifer y cofrestriadau ar gyfer ITM cyn y cafodd cynllun Dyfodol Byd-eang ei gyflwyno yn 2015. Ers hynny mae cyfradd y dirywiad wedi cyflymu rhywfaint o'i gymharu â'r bum mlynedd flaenorol.


Er bod cofrestriadau ar gyfer TGAU mewn ITM wedi bod yn dirywio dros nifer o flynyddoedd, rydym wedi gweld dirywiad sylweddol yng Nghymru dros y 10 mlynedd ddiwethaf, gyda gostyngiad o 48% mewn cofrestriadau ar gyfer ITM ers 2010. Mae'r ffigurau'n dangos gostyngiad o 56% mewn Ffrangeg, cwymp o 65% mewn Almaeneg a gostyngiad o 16% mewn Sbaeneg.

Yn ystod pum mlynedd cynllun Dyfodol Byd-eang, gwelwyd cynnydd o 77% yn nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU Cymraeg Ail Iaith, tra bu gostyngiad o 5% yn y cofrestriadau ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf. Gwelwyd cynnydd o 9% mewn cofrestriadau ar draws holl bynciau TGAU.[10]

Cofrestriadau ar gyfer TGAU mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg 2010-2019




Cofrestriadau ar gyfer TGAU mewn ITM, Cymraeg L1 a Chymraeg L2, 2015-2019[11]





8 Casglwyd y ffigurau o'r data ar gyfer Cymru a gyhoeddwyd gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC).

9 Dim ond mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg y darperir TGAU drwy gyfrwng y Gymraeg. Gall ymgeiswyr sefyll arholiadau mewn hyd at 18 o ieithoedd drwy fyrddau arholi cyfrwng Saesneg gan gynnwys, Arabeg, Tsieinëeg, Eidaleg, Rwsieg, Twrceg ac Wrdw. Dim ond ar gyfer y DU yn gyffredinol y mae'r manylion hyn ar gael fesul iaith.

10 Cafodd y cwrs Cymraeg Ail Iaith newydd ei gyflwyno yn 2017 a safwyd yr arholiad gan ddisgyblion am y tro cyntaf yn 2019. Mae'n gwrs cyflawn, ac mae'n cymryd lle arholiadau'r cyrsiau cyflawn a byr blaenorol.

11 Casglwyd gan Alcantara Communications o ddata a gyhoeddwyd gan **www.jcq.org.uk**

Cofrestriadau ar gyfer Lefel A mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg yng Nghymru, detholiad o flynyddoedd 2001-2019[12]




| | 2001 | 2005 | 2010 | 2015 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffrangeg | 1029 | 1021 | 711 | 460 | 314 |
| Almaeneg | 376 | 288 | 209 | 121 | 77 |
| Sbaeneg | 228 | 214 | 220 | 219 | 178 |

## LEFEL A

Gyda Lefel A, rydym wedi gweld dirywiad sylweddol parhaus am dros 20 mlynedd yn nifer y disgyblion sy'n dewis ieithoedd tramor modern. Ers 2001 gwelwyd gostyngiad o 70% yn nifer y cofrestriadau ar gyfer Ffrangeg ac 80% ar gyfer Almaeneg. Ar ddechrau'r cyfnod gwelwyd twf yn nifer y cofrestriadau ar gyfer Sbaeneg ond maent wedi disgyn ers hynny a bellach maent 22% yn is nag yr oeddynt yn 2001.

Rhwng 2018 a 2019 roedd gostyngiad cyffredinol o 5% yn nifer y cofrestriadau ar gyfer ITM; cafodd y cynnydd bach yn nifer y cofrestriadau a welwyd ar gyfer Lefel A mewn Almaeneg a Sbaeneg ei dynnu'n ôl gan y gostyngiad yn nifer y cofrestriadau ar gyfer Ffrangeg.



# CANFYDDIADAU'R AROLWG: IEITHOEDD RHYNGWLADOL MEWN YSGOLION CYNRADD

Mae 39% o'r ysgolion cynradd a ymatebodd i'r arolwg yn dysgu rhywfaint o ieithoedd tramor ar hyn o bryd sy'n cymharu â 28% o ysgolion cynradd a ymatebodd yn 2016. Mae hyn yn awgrymu y bu cynydd yn narpariaeth dysgu ieithoedd tramor dros y tair blynedd diwethaf ac mae hefyd yn cynnig mwy o ysgolion i ni seilio ein dadansoddiad o'r ddarpariaeth gyfredol arnynt.

O blith y 42 o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ein sampl eleni, mae 52 % yn dysgu iaith ryngwladol, o'i gymharu â 33% mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.[13] Er bod y sampl yn fach, mae hyn yn awgrymu fod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o ddysgu iaith ryngwladol na mathau eraill o ysgolion.

Mae gwahaniaethau clir hefyd rhwng gwahanol awdurdodau lleol. Does dim un o'r wyth ysgol gynradd yn Sir Fflint a ymatebodd i'r arolwg yn dysgu iaith ryngwladol. Mae wyth o'r deuddeg ysgol yng Nghaerdydd a ymatebodd yn dysgu iaith ryngwladol fel y gwna chwech o'r deg a ymatebodd yng Ngheredigion. Mae mwy na hanner yr ysgolion a ymatebodd yn Ynys Môn, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin a Gwynedd yn dysgu iaith ryngwladol tra mai bach iawn o ddysgu ieithoedd rhyngwladol a welir yn Sir Conwy, Sir Fynwy, Sir Benfro a Merthyr Tydfil.[14]

## IEITHOEDD A DDYSGIR

Mae dwy ran o dair o'r ysgolion sy'n dysgu iaith ryngwladol (26% o'r holl ysgolion a ymatebodd) yn dysgu Ffrangeg; mae nifer llai yn dysgu Almaeneg (5%), Sbaeneg (7%) ac ieithoedd eraill (10%).

## DARPARIAETH YN ÔL GRŴP BLWYDDYN

Mae ysgolion yn fwy tebygol o ddysgu iaith ryngwladol ym mlynyddoedd uwch Cyfnod Allweddol 2, gyda 85% yn cyflwyno darpariaeth ym Mlwyddyn 5 a/neu Flwyddyn 6, a 57% ym Mlynyddoedd 3 a/neu 4. Roedd ychydig dros chwarter yr ysgolion cynradd sy'n dysgu iaith ryngwladol (28%) yn nodi eu bod yn gwneud hynny yng nghyfnod Allweddol 1.

## Y DDARPARIAETH DDYSGU IEITHOEDD A GYNIGIR

Dywedodd chwarter (25%) o'r ysgolion sy'n dysgu iaith ryngwladol eu bod yn dilyn model dysgu systematig gydag un neu fwy o'u grwpiau blwyddyn. Mae hynny'n gyfran o 10% o'r holl ysgolion a ymatebodd, yr un canran yn union (o gyfanswm yr ysgolion a ymatebodd) a nodwyd yn 2016.[15]

» *Mae athrawes o'r ysgol uwchradd yn dod i roi gwers Ffrangeg (i un dosbarth o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6) unwaith yr wythnos; mae'r gwersi'n cynnwys cyflwyniad i ddiwylliant Ffrainc hefyd (cyfrwng Cymraeg).*

» *Darperir sesiynau Mandarin yn wythnosol gan ysgol uwchradd y clwstwr (Blwyddyn 1-6).*

Mewn tua thraean o'r ysgolion sy'n dysgu iaith ryngwladol, caiff yr iaith ei chyflwyno trwy gyfrwng dysgu 'achlysurol' yn ystod gwersi yn y dosbarth:

» *Dysgu Ffrangeg sylfaenol am rai wythnosau ar ddiwedd tymor yr Haf.*

» *Daw myfyriwr Mandarin i ddysgu Blwyddyn 4 mewn blociau prynhawn yn ystod y tymor.*


12 Casglwyd gan Alcantara Communications o ddata a gyhoeddwyd gan **www.jcq.org.uk**

13 Roedd 11 o'r ysgolion a ymatebodd naill ai'n ysgolion 'Dwy Ffrwd', 'Dwyieithog' neu 'Saesneg gyda llawer o Gymraeg'. Mae pump o'r rhain yn nodi eu bod yn dysgu iaith ryngwladol yn ychwanegol i Saesneg a Chymraeg.

14 Ceir manylion rhanbarth a chyfrwng dysgu'r ysgolion a ymatebodd yn Atodiad 1.

15 Roedd y dewis o opsiynau a oedd ar gael i'r ysgolion a ymatebodd yn wahanol yn 2016, felly nid yw'n bosib dangos ffigurau cymharol ar gyfer pob un o'r darpariaethau a restrir yn 2019.

Sut mae athrawon yn disgrifio'r dull dysgu iaith maen nhw'n ei gynnig?




*Sail = 60. Gellid rhoi mwy nag un ateb*

Darperir sesiynau iaith rhagarweiniol fel rhan o weithgareddau pontio gydag ysgolion uwchradd mewn 28% o ysgolion cynradd sy'n cynnig ieithoedd rhyngwladol:

» *Yn ystod yr hanner tymor olaf, caiff disgyblion Blwyddyn 6 wahoddiad i fynychu clwb ar ôl ysgol... i'w cyflwyno i iaith arall ac er mwyn iddynt fagu hyder cyn mynd i'r ysgol uwchradd. Mae'r sesiynau yma'n cyflwyno cyfarchion, lliwiau, rhifau, dyddiau'r wythnos ayb.*

» *Daw un o athrawon yr ysgol uwchradd atom ni unwaith yr wythnos am dymor - ar gyfer Blwyddyn 6.*

Doedd dim un o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg na dwyieithog yn ein sampl yn cynnig dosbarthiadau gwirfoddol na chlybiau all-gwricwlaidd ar gyfer ieithoedd rhyngwladol. Roedd bron pob un o'r 15 ysgol a oedd yn cynnig y ddarpariaeth yma'n ysgolion cyfrwng Saesneg, yn ogystal â dwy ysgol Ddwy Ffrwd:

» *Clwb amser cinio y mae'n rhaid talu amdano – rhedir gan Lingotots.*

» *Mae gwersi preifat yn ystod amser cinio neu ar ôl ysgol ar gael i bob disgybl Derbyn ym Mlwyddyn 6, os ydynt yn dewis talu. Mae'r ysgol yn cynnig y gwersi yma am ddim i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.*

Nododd nifer o'r ysgolion eu bod yn cyfuno'r ddarpariaeth ar gyfer gwahanol ieithoedd gan gynnig profiadau a chyfleoedd dysgu amrywiol drwy'r ysgol gyfan:

» *Rydyn ni'n gweithio gyda'r 'Goethe Insitut' ar brosiect iaith. Rydyn ni'n cynnig clwb Almaeneg ar ôl ysgol. Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn gwersi Ffrangeg bob pythefnos fel rhan o'r gweithgareddau pontio gyda'r ysgol uwchradd leol.*

» *Gweithgareddau iaith neu ddiwylliant Mandarin drwy'r ysgol gyfan. Ffrangeg ym Mlynyddoedd 3 a 4. Eidaleg ym Mlynyddoedd 5 a 6.*

## PWY SY'N GYFRIFOL AM Y DYSGU?

Mae ysgolion cynradd yn defnyddio amrywiaeth o athrawon i gyflwyno ieithoedd rhyngwladol. Mae dros draean o'r ysgolion sy'n cyflwyno ieithoedd rhyngwladol (37%) yn dibynnu ar athrawon dosbarth. Mae gan bump o'r ysgolion aelod o'u staff sy'n arbenigo mewn dysgu iaith ac mae tair ysgol arall yn defnyddio athrawes/athro iaith arbenigol sy'n teithio.


O dan y penawd 'arall' rhestrwyd amrywiaeth eang o bobl sy'n darparu gwersi iaith, gan gynnwys 'Cynorthwywyr Dysgu', 'Myfyriwr ar Gynllun Cyfnewid' a ''Pennaeth yr Ysgol'. Cyfeiriodd un ysgol at blatfform *'Power Language'*, sy'n helpu athrawon dosbarth i gyflwyno geiriau a brawddegau syml. Nodwyd hefyd fod prosiect Cerdd Iaith (Listening to Languages) wedi darparu athrawes/athro yn benodol ar gyfer dysgu Sbaeneg.[16]

Gan dderbyn fod y canrannau hyn yn seiliedig ar niferoedd cymharol fach, mae'r cyfrannau'n debyg i 2016 ond mae tebygolrwydd uwch erbyn 2019 fod athrawon dosbarth yn rhan o'r broses o gyflwyno ieithoedd rhyngwladol (37% yn 2019, 30% yn 2016) a bod llai o ddibyniaeth ar rieni neu lywodraethwyr (2% yn 2019, 9% yn 2016).

## INTEGREIDDIO IEITHOEDD RHYNGWLADOL GYDA'R GYMRAEG A'R SAESNEG


Mae mwy na hanner yr ysgolion sy'n dysgu ieithoedd rhyngwladol yn gwneud hynny'n ar wahân i'w strategaethau ar gyfer dysgu Cymraeg a Saesneg.

Pwy sy'n gyfrifol am ddysgu ITM mewn ysgolion cynradd?




*Sail = 60. Gellid rhoi un ateb yn unig*

I ba raddau mae gan ysgolion strategaethau integreiddiedig ar gyfer dysgu Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol?




*Sail = 59*

Er bod 16 o ysgolion (11 cyfrwng Saesneg, 5 cyfrwng Cymraeg) yn nodi eu bod wedi dechrau integreiddio ieithoedd rhyngwladol i strategaethau dysgu ehangach ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg, dim ond 3 ohonynt (2 cyfrwng Saesneg, 1 cyfrwng Cymraeg) a nododd eu bod wedi integreiddio'n gyfan gwbl. Mae'r cyfrannau yma'n adlewyrchu'r proffil cenedlaethol yn ôl cyfrwng y dysgu.


Nodir fod prinder cefnogaeth allanol fel cefnogaeth gan ysgolion uwchradd neu Gynorthwywyr Iaith yn rhwystr i integreiddio ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion – yn enwedig i ysgolion sy'n dal i gymryd camau cynnar o ran datblygu dysgu ieithoedd.[17]

Dywedodd un ysgol, sy'n dysgu Tsieinëeg a Sbaeneg, ei bod yn dysgu Tsieinëeg ar wahân i'w strategaethau ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg, ond bod cynlluniau ar y gweill i integreiddio Sbaeneg i'w strategaethau dysgu ehangach fel rhan o'i pharatoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd.

16 Prosiect dysgu creadigol yw **Cerdd Iaith/Listening to Language** sy'n integreiddio cerddoriaeth a dysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd yn Ne a Gorllewin Cymru. Mae partneriaid y fenter yn cynnwys British Council Cymru, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Yr Athrofa – Y Sefydliad dros Addysg ac Ein Rhanbarth ar Waith (ERW).

17 Adlewyrchir hyn gan y gostyngiad yn nifer yr ysgolion yng Nghymru sy'n manteisio ar wasanaeth Cynorthwywyr Iaith. Mae niferoedd Cynorthwywyr Iaith yng Nghymru wedi gostwng 95% - o 82 o Gynorthwywyr Iaith yn 2012/13 i 4 yn 2019/20.

Pa iaith/ieithoedd mae ysgolion yn ystyried eu dysgu / a fyddent yn ddelfrydol yn hoffi eu dysgu?




*Sail = 19 + 62*

## DIFFYG DYSGU IEITHOEDD RHYNGWLADOL MEWN YSGOLION CYNRADD

Mae 20% (19 o ysgolion) o'r 94 o ysgolion sydd ddim yn dysgu ieithoedd rhyngwladol ar hyn o bryd eisoes yn paratoi i ddechrau dysgu iaith ryngwladol yn unol â gofynion cwricwlwm newydd Cymru. Ond, nid yw mwyafrif yr ysgolion (68%) wedi gwneud unrhyw baratoadau eto, ac mae 12% o ysgolion yn nodi nad ydynt yn bwriadu dysgu ieithoedd rhyngwladol.

O ran yr ieithoedd sydd dan ystyriaeth, Ffrangeg a Sbaeneg yw'r mwyaf poblogaidd. Mae hynny'n wir yn achos yr ysgolion sydd wedi dechrau cynllunio eisoes yn ogystal â'r rheini sydd heb gychwyn cynllunio. Ymysg yr ieithoedd eraill a gafodd eu crybwyll roedd Mandarin, Almaeneg, Arabeg, Eidaleg, Pwnjabeg a Bengali.

Roedd dros hanner (10) yr 19 o ysgolion sydd eisoes yn paratoi i ddysgu ieithoedd rhyngwladol yn nodi fod arbenigedd aelodau presennol eu staff wedi dylanwadu ar y dewis o iaith i'w dysgu. Roedd rhesymau eraill yn cynnwys: dewiswyd yr iaith i gyd-daro â themâu'r maes llafur; cysylltiadau sydd wedi eu sefydlu eisoes neu brofiad o ran dysgu'r iaith; roedd yr ysgol uwchradd leol yn dysgu'r iaith; 'mae'n cydweddu â phroffil iaith y plant' (Arabeg); ac mai penderfyniad gan Gyngor yr Ysgol ydoedd.

## CYNLLUNIO AR GYFER IEITHOEDD RHYNGWLADOL YN Y CWRICWLWM NEWYDD

Gofynnwyd i ysgolion nad oedd wedi dechrau cynllunio eto am y modelau a allai fod yn addas ar gyfer datblygu dysgu ieithoedd rhyngwladol yn eu hysgol. Mae'r ymatebion yn dangos fod yr ysgolion yn ffafrio defnyddio darpariaeth allanol gan ysgolion uwchradd, prifysgolion neu athrawon teithiol yn hytrach na datblygu eu dulliau eu hunain i'w hintegreiddio gyda'u darpariaeth ar gyfer y Gymraeg a/neu Saesneg.

## YSGOLION SYDD DDIM YN BWRIADU DYSGU IEITHOEDD RHYNGWLADOL

O'r 11 o ysgolion a ddywedodd nad ydynt yn bwriadu datblygu darpariaeth i ddysgu ieithoedd rhyngwladol, nododd pump ohonynt mai eu prif reswm dros beidio yw nad yw dysgu ieithoedd rhyngwladol yn orfodol. Nododd pum ysgol arall nad oedd dysgu ieithoedd rhyngwladol yn flaenoriaeth iddynt gan fod eu disgyblion eisoes yn dysgu Cymraeg a Saesneg. Nododd pedair o'r ysgolion fod diffyg arbenigedd yn eu hysgol wedi dylanwadu ar y penderfyniad, a nododd pedair ysgol arall fod y cwricwlwm cynradd eisoes yn orlawn.


Dim ond un ysgol a nododd nad oedd unrhyw alw gan rieni'r ysgol (gallai'r ysgolion ddewis hyd at 3 rheswm). Dywedodd dau o'r ysgolion:

» *Mae Saesneg yn iaith ychwanegol (EAL)[18] i 92% o'n disgyblion felly rydyn ni'n dysgu Saesneg i'r rhan fwyaf o'n disgyblion.*

» *Rydyn ni wedi bod yn chwilio am gefnogaeth wirfoddol i ddysgu ITM – ond heb lwyddo eto.*

Fodd bynnag, dywedodd yr ysgol olaf uchod fod ganddynt gynlluniau i weithio gydag ysgol uwchradd leol ar brosiect ITM.

Nid oedd unrhyw ysgol cyfrwng Cymraeg yn y grŵp yma ac mae pob un o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg a ymatebodd i'r arolwg naill ai'n dysgu iaith ryngwladol yn barod neu'n bwriadu gwneud.




*Sail = 62. Gellid rhoi hyd at 3 o atebion*


**AGWEDDAU RHIENI A CHYMUNEDAU LLEOL**

Gofynnwyd i'r ysgolion cynradd nodi pa mor gadarnhaol, yn eu barn nhw, yw agwedd rhieni a chymunedau lleol tuag at ddysgu ieithoedd rhyngwladol ar raddfa o 0 (ddim yn gefnogol o gwbl) i 10 (yn gefnogol iawn).

Cafodd yr ymatebion eu grwpio i dri chategori - 'cadarnhaol', 'llugoer' a 'negyddol'. Dangosodd hyn fod ychydig yn llai na hanner yr ysgolion cynradd yn meddwl fod agweddau rhieni a chymunedau lleol yn gadarnhaol, yn gyffredinol, tuag at ddysgu ieithoedd rhyngwladol, tra bod tua chwarter yn credu fod agweddau'r rhieni a'r gymuned yn negyddol, a'r gweddill yn 'llugoer' - heb fod yn arbennig o negyddol na chadarnhaol.


Mae cydberthynas ystadegol arwyddocaol rhwng lefel y gefnogaeth mae'r ysgolion yn barnu sydd yn eu cymunedau lleol ar gyfer ieithoedd rhyngwladol a'r gyfran o ddisgyblion yr ysgolion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYD). Gwelwyd po fwyaf cefnog oedd proffil yr ysgol, y mwyaf tebygol oedd yr ysgol honno o nodi lefel uchel o gefnogaeth i ieithoedd rhyngwladol ymysg y rhieni a'r gymuned leol.

*Agweddau rhieni a'r gymuned leol tuag at ieithoedd rhyngwladol - wedi'u grwpio gyda'i gilydd*




18 EAL: Saesneg fel Iaith Ychwanegol.


Pa mor gefnogol yw rhieni a chymuned leol eich ysgol o ddysgu ieithoedd rhyngwladol yn ôl % y disgyblion sy'n gymwys i gael PYD?




0 = ddim yn gefnogol o gwbl <-> 10 = yn gefnogol dros ben

*Sail = 119*

A yw eich ysgol wedi cael cynnig, neu wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant ar gyfer dysgu ieithoedd rhyngwladol/ITM a drefnwyd gan eich Consortiwm Rhanbarthol fel rhan o gynllun Dyfodol Byd-eang Llywodraeth Cymru?




*Sail = 144*

## MANTEISIO AR GYNLLUN DYFODOL BYD-EANG

Holwyd yr holl ysgolion os oeddent wedi cael cynnig, neu wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag ieithoedd rhyngwladol a drefnwyd gan y Consortia Rhanbarthol fel rhan o gynllun Llywodraeth Cymru, 'Dyfodol Byd-eang'. Nododd bron i hanner yr ysgolion (46% - 66 o ysgolion) eu bod wedi cymryd rhan mewn o leiaf un o weithgareddau'r cynllun.

Roedd deg ysgol wedi derbyn gwahoddiad i gymryd rhan mewn un neu ragor o weithgareddau ond heb wneud hynny. Mae hynny'n golygu na chafodd bron i hanner yr ysgolion (47% - 68 o ysgolion) unrhyw gyfle i gymryd rhan.

Er mai dim ond canran fach o'r ysgolion (7%) a ddewisodd beidio manteisio ar gyfleoedd a gynigiwyd iddynt, mae cyfran sylweddol o'r ysgolion cynradd – bron i dri chwarter yr ysgolion a ymatebodd mewn rhai achosion – yn nodi na chawsant wahoddiad i gymryd rhan mewn gweithgareddau penodol ac y byddent wedi croesawu'r cyfle i wneud hynny.

Mae'r siart isod yn dangos fod nifer yr ysgolion a fyddai wedi croesawu cyfle i gymryd rhan yn y gweithgareddau yma'n fwy na dwywaith cyfanswm y nifer sydd wedi cymryd rhan hyd yma. Mae hyn yn wir am bob un o'r gweithgareddau a restrir.

Mae nifer yr ysgolion na dderbyniodd wahoddiad i gymryd rhan mewn gweithgareddau penodol ond nad oedd â diddordeb gwneud hynny, yn llawer is ym mhob achos. Mae dyhead cryf ymysg yr ysgolion am ragor o gyfleoedd, yn enwedig am weithgareddau mewn partneriaeth â phrifysgolion lleol, mentrau datblygu, a hyfforddiant methodoleg dysgu ieithoedd. Dywedodd mwy na 70% o'r ysgolion a ymatebodd y byddent yn croesawu cyfle i fanteisio ar gyfleoedd o'r fath. Nododd dros 60% y byddai diddordeb ganddynt mewn hyfforddiant ar gyfer dysgu iaith benodol, digwyddiadau rhwydweithio gydag ysgolion eraill ac arweiniad o ran cynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd

Gweithgareddau'n cynnig arweiniad ar gynllunio ar gyfer cwricwlwm newydd Cymru a ddenodd y nifer mwyaf o ysgolion cynradd i gymryd rhan (40 o'r 144 o ysgolion), ac yn ail i hynny roedd 27 o ysgolion a gymerodd ran mewn digwyddiadau rhwydweithio gydag ysgolion lleol eraill.

Disgrifiodd rhai ysgolion mathau eraill o weithgareddau y maent wedi cymryd rhan ynddynt:

» *Rydym wedi cydweithio ar ymchwil gweithredol gyda phrifysgol leol a rhaglenni iaith y Brifysgol Agored. Yn ogystal, rydym wedi arwain a mynychu digwyddiadau rhwydweithio gydag ysgolion cynradd eraill.*

» *Rydym wedi danfon aelod o'r staff ar flwyddyn sabothol eleni i astudio'r Gymraeg gyda'r brifysgol ac fe fydd yn rhannu'r wybodaeth am strategaethau gyda holl staff yr ysgol. Rydym hefyd yn bwriadu cyflwyno Almaeneg ym mis Medi.*

Mae eraill yn dangos eu bod yn ymwybodol o'r gofynion arnynt ar gyfer y dyfodol:

» *Yn fwy na pharod i hyfforddi staff – ond mae angen i gwmnïau/colegau ystyried amseroedd sy'n addas i athrawon.*

» *Gan fod gyda ni ddau [aelod o staff] sy'n gallu siarad Ffrangeg – yr hyn sydd ei angen arnynt yw hyfforddiant yn y dulliau gorau o gyflwyno Ffrangeg i ddisgyblion cynradd. Bydd adnoddau cyfrwng Cymraeg da yn allweddol!*


Ond roedd eraill yn teimlo'n rhwystredig yn sgil eu profiadau a/neu sefyllfa eu hysgol:

» *Dim byd [gan y consortiwm rhanbarthol]. Rydym wedi gorfod cymryd mantais o gyfleoedd hyfforddi yn uniongyrchol drwy raglenni'r British Council ee Cysylltu Dosbarthiadau ac ymweliadau KA1 a KA2.*[19]

» *Ni allaf weld sut y gall athrawon ysgwyddo hyn hefyd. Rydyn ni'n dal i gael anhawster wrth geisio dysgu Cymraeg yn effeithiol.*

*Yr hyn sy'n ein rhwystro yw diffyg cyllid, nid diffyg diddordeb. Mae gyda ni gynllun adfer tair blynedd ar waith ac rydyn ni hyd yn oed yn cael trafferth i ateb gofynion statudol ar hyn o bryd.*

19 Cyfeiriad at ymweliadau a arianwyd drwy'r rhaglen Ewropeaidd, Erasmus+.




*Sail = 142. Gellid rhoi mwy nag un ateb*

## Y GEFNOGAETH SYDD EI ANGEN I DDATBLYGU IEITHOEDD RHYNGWLADOL

Nododd yr ysgolion fod angen cefnogaeth eang arnynt. Ar ben y rhestr mae hyfforddiant dysgu ieithoedd i staff (dywedodd 86% o'r ysgolion a ymatebodd fod hyn yn angenrheidiol), adnoddau (75%) a gwell dealltwriaeth strategol o sut y gellir dysgu ieithoedd rhyngwladol ochr yn ochr â Chymraeg a Saesneg (68%). Rhoddwyd pwyslais hefyd ar yr angen am hyfforddiant i staff gan gynnwys arweiniad ar ddatblygu Cynlluniau Gwaith, hyfforddiant mewn methodoleg a chefnogaeth gan rwydweithiau lleol.

Pan holwyd pa un o'r rhain yw'r rhwystr mwyaf, dywedodd dwy ran o dair mai hyfforddiant iaith ar gyfer staff yw'r elfen allweddol. Dim ond 15% o'r ysgolion a nododd mai adnoddau oedd y prif rwystr. Ond, cafodd dwy ystyriaeth newydd eu crybwyll: amser ar gyfer cynllunio (a nodwyd gan 14% o'r ysgolion), ac ariannu (10%). Fe gododd y ddwy ystyriaeth yma'n gyson yn sylwadau'r athrawon ynghyd â hyfforddiant a chymorth allanol:

» *Mewn ysgolion Cymraeg bach, mae'n dipyn o her i gyrraedd pwynt lle mae'r disgyblion yn gwbl ddwyieithog. Prin iawn yw nifer y staff sydd ar gael i arwain ar fentrau newydd. Byddai mwy o amser yn ardderchog neu Gynorthwyydd Dysgu arbenigol neu Athrawes/Athro arbenigol i gyflwyno'r sesiynau.*

» *Ni allwn chwaith anwybyddu dylanwad ariannu fel ffactor sy'n cyfyngu ein gallu i gyflogi [staff].*

» *Mae angen maes llafur sy'n cynnwys cynlluniau gwersi arnom ni os gwelwch yn dda – gydag adnoddau cysylltiedig yn hytrach na mwy o ganllawiau ar gynhyrchu Cynlluniau Gwaith.*

» *Ni fyddai angen cynorthwy-ydd iaith dramor llawn-amser arnom, ond, petai modd rhannu un rhwng ysgolion fe fyddem yn croesawu cael cynorthwy-ydd yma, yn sicr. Fel mae'n digwydd, mae gyda ni ddau o athrawon sy'n gallu siarad Ffrangeg – ond fe allen nhw symud i ysgol arall yn ddigon hawdd, ac wedyn fyddai gyda ni neb yma.*

Mae'r canfyddiadau yma'n cyd-fynd â'r farn a fynegwyd yn arolwg 2016 lle nododd yr ysgolion a ymatebodd y byddai angen cyllid ac arbenigedd ychwanegol er mwyn gallu cyflwyno ITM mewn ysgolion cynradd. Cafwyd adlais ohonynt eto yn y sylwadau olaf hyn:

» *Mae diffyg hyder a phrofiad ymysg y staff o ran y disgwyliadau, adnoddau a'r cynlluniau ar gyfer ieithoedd rhyngwladol, felly fe fyddai'r ysgol gyfan yn elwa o bob cefnogaeth a chymorth posib.*

» *Rwy'n credu y bydd y cwricwlwm newydd yn ehangu'r cyfleoedd i'r disgyblion gael eu trochi o ddifrif mewn mwy na Saesneg a Chymraeg. Ond fel ysgol, rydyn ni'n poeni am hyfforddiant staff a sgil effeithiau hyn ar yr amserlen.*

Roedd eraill am nodi rhwystrau fel cwricwlwm sydd eisoes yn llawn a'r angen i flaenoriaethu Saesneg, Cymraeg a chefnogaeth i ddisgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL):

» *Mae'r staff wedi mynegi pryderon am faint o amser sydd ar gael i ddysgu ieithoedd eraill – mae cyflwyno holl agweddau'r cwricwlwm yn yr amser sydd ar gael i ni eisoes yn her sylweddol.*

» *Mae ein rhieni'n cwyno'n barod am yr amser sy'n cael ei dreulio ar ddysgu Cymraeg ac yn gweld bod iaith arall yn rhoi mwy o bwysau ar eu plant ac yn tynnu eu sylw oddi wrth ddysgu Saesneg.*

» *Rwy'n credu fod hyn yn bwysig er mwyn ehangu gorwelion. Ond her y cyd-destun rwy'n ei wynebu yw'r tlodi iaith a'r angen i wreiddio gallu yn y Saesneg gyda phlant sy'n dod i'r ysgol heb yr iaith - oni fyddai cyflwyno ITM ar ben hynny'n peri dryswch pellach?*

Hefyd, mae argraff fod ieithoedd rhyngwladol yn cystadlu â'r Gymraeg am adnoddau prin, fel y dengys y sylwadau gwrthgyferbyniol canlynol:

» *Mewn egwyddor, rwy'n credu fod hyn yn syniad da. Ond yn ymarferol, rwy'n poeni nad oes gyda ni'r arbenigedd; rwy'n gwybod faint o arian sydd wedi cael ei fuddsoddi ar ddysgu Cymraeg ers dros ugain mlynedd a mwy bellach, ac mae llawer o athrawon yn dal yn ddi-hyder o ran dysgu mewn iaith arall.*

» *Rwy'n credu fod ceisio cyfiawnhau hybu ieithoedd rhyngwladol ar gefn yr holl doriadau i adnoddau a darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn anodd iawn.*

Mae ysgolion cynradd am weld y gwaith o gyflwyno ieithoedd rhyngwladol yn llwyddo, ond maent yn ymwybodol o'r sgil effeithiau ar adnoddau ac o bwysigrwydd gosod sylfeini yn y cyfnod cynradd y gall ysgolion uwchradd adeiladu arnynt:

» *Rwy'n bendant yn hoffi'r syniad, ond mae'r cwricwlwm cynradd yn orlawn, ac mae'r disgwyliadau'n uchel iawn. Nid yw'r ysgolion uwchradd yn cydio yn awenau'r gwaith da sy'n cael ei gyflawni gennym yn y pynciau craidd, sy'n gwneud i mi feddwl y byddan nhw'n anwybyddu'r ffaith ein bod ni wedi gwneud cynydd gyda ITM a dechrau o'r dechrau eto. Hefyd, os yw'r ysgolion uwchradd yn mynd i adeiladu ar ein gwaith da, bydd gofyn fod disgyblion pob un o'r ysgolion bwydo cynradd wedi cyrraedd yr un safon. Does dim amser gydag ysgolion cynradd i wneud hyn er mwyn sioe'n unig – naill ai rydyn ni'n gwneud hyn yn iawn, gyda'n gilydd, neu waeth i ni beidio trafferthu o gwbl.*

» *Rydyn ni wedi gwneud cynydd aruthrol o ran darparu ieithoedd rhyngwladol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ond, mae'r toriadau yn ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf yn golygu nad allwn ddanfon unrhyw athrawon ar gyrsiau hyfforddiant flwyddyn nesaf. Nid yw ein staff yn ieithyddion ac nid ydynt yn hyderus iawn wrth gyflwyno ieithoedd. Maent wedi dechrau ar y gwaith yn eu dosbarthiadau, ond mae hyfforddiant parhaus yn hanfodol os ydyn ni am lwyddo i ddarparu ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion cynradd.*



# CANFYDDIADAU'R AROLYGON UWCHRADD

## PA IEITHOEDD SY'N CAEL EU DYSGU?

Gofynnwyd i'r athrawon nodi pa ieithoedd sy'n cael eu dysgu yn y gwahanol gyfnodau allweddol er mwyn rhoi darlun mwy cyflawn na ffigurau'r arholiadau'n unig.


Dysgir Ffrangeg mewn dwywaith cymaint o ysgolion â Sbaeneg, a mwy na phedair gwaith cymaint o ysgolion ag Almaeneg. Ond, tra bod llai o ysgolion yn dysgu Ffrangeg yng Nghyfnod Allweddol 4 nag yng Nghyfnod Allweddol 3, mae'r gwrthwyneb yn wir gyda Sbaeneg gan fod 39% yn cynnig Sbaeneg yng Nghyfnod Allweddol 4 a 30% yng Nghyfnod Allweddol 3 (Gwelir cyfran lai o ysgolion yn cynnig darpariaeth Ôl-16 ar gyfer y gwahanol ieithoedd gan na ddysgir disgyblion yr oed hwnnw gan lawer o ysgolion yr arolwg). Trafodir sefyllfa ieithoedd Ôl-16 ymhellach ar dudalen 26.


Nododd traean o'r ysgolion (38%) eu bod yn cynnig un neu ragor o ieithoedd fel opsiynau all-gwricwlaidd – y mwyaf cyffredin o'r rhain oedd Mandarin, sy'n cael ei gynnig gan 10 o ysgolion yr arolwg

Dywedodd dros hanner yr ysgolion (58%) fod eu disgyblion yn gallu sefyll arholiadau yn eu hieithoedd cartref, fel Pwyleg, Eidaleg a Phortiwgaleg. Adlewyrchir y cofrestriadau yma yn y ffigurau arholiad a nodir yn adran 3. Nododd pob un o'r ysgolion ond un eu bod yn hwyluso hyn.


| | Cyfnod Allweddol 3 | Cyfnod Allweddol 4 | Ôl-16 | Unrhyw lefel |
|---|---|---|---|---|
| Ffrangeg | 88% | 83% | 32% | 90% |
| Almaeneg | 18% | 18% | 7% | 20% |
| Sbaeneg | 30% | 39% | 16% | 44% |
| Arall | 5% | 4% | 2% | 7% |

*Cyfrannau'r ysgolion a ymatebodd sy'n dysgu ieithoedd amrywiol mewn gwahanol gyfnodau allweddol (Sail = 114)*






Sail yn 2019 = 107[20]




Sail yn 2019 = 107[21]

## NIFER Y DISGYBLION SY'N DEWIS ITM YNG NGHYFNOD ALLWEDDOL 4


Mae ymatebion yr ysgolion yn dynodi fod y tueddiad i lai o ddisgyblion ddewis ITM ym Mlynyddoedd 10 ac 11 yn parhau. Mae'r siart isod yn dangos esblygiad cyfraddau'r cyfranogiad ym Mlwyddyn 10 dros y pedair blynedd ddiwethaf. Ceir patrwm tebyg iawn gyda ffigurau Blwyddyn 11 (ni ddangosir).

Nid oedd unrhyw ysgol yn unrhyw un o flynyddoedd yr arolwg yn nodi fod mwy na 75% o'r cohort wedi dewis ITM naill ai ym Mlwyddyn 10 neu ym Mlwyddyn 11, o'i gymharu â 30% o ysgolion yng Ngogledd Iwerddon a 27% o ysgolion yn Lloegr.[22]

20 Rhif Sail nifer ymatebwyr y blynyddoedd eraill oedd, 2016: 124; 2017: 118; 2018: 135.

21 Gweler y nodyn uchod am fanylion Rhif Sail nifer ymatebwyr y blynyddoedd eraill.

22 Roedd gan 30% o'r ysgolion ôl-gynradd a ymatebodd i '*Language Trends Northern Ireland*' (British Council Northern Ireland, 2019, t.25) fwy na 75% o ddisgyblion a oedd wedi dewis cymryd iaith ar gyfer TGAU. Yn Lloegr, roedd y ganran yn 27% ('*Language Trends 2019, Language Teaching in Primary and Secondary Schools in England*'. British Council, 2019. t.19).




Gwelwyd y cwymp mwyaf arwyddocaol yn y gyfran o ysgolion sy'n llwyddo i ddenu o leiaf chwarter y cohort i astudio ITM. Mor ddiweddar â thair blynedd yn ôl, roedd bron i draean o'r ysgolion yn gallu denu cymaint â hynny, ond bellach dim ond 12% - 13% sy'n llwyddo i wneud.

Pan holwyd sut yr oedd y cyfrannau yma'n cymharu â'r flwyddyn flaenorol, dywedodd 36% o'r ysgolion fod ganddynt lai o ddisgyblion yn astudio ITM ym Mlwyddyn 11 na'r flwyddyn gynt, a nododd traean o'r ysgolion (33%) fod ganddynt lai o ddisgyblion yn astudio ITM ym Mlwyddyn 10. Ond, mae'r gyfran yma'n cyfateb, fwy neu lai, i'r 31% o ysgolion a nododd fod mwy o ddisgyblion ganddynt yn astudio iaith dramor fodern na llynedd, sydd o bosib yn cynnig llygedyn o obaith y gall y gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n dewis astudio iaith ar gyfer TGAU yn 2020 fod yn llai serth nag a welwyd yn 2019.

Nododd tri chwarter yr ysgolion a ymatebodd mai'r rheswm yr oedd ganddynt lai o ddisgyblion na'r flwyddyn flaenorol ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11 oedd y nifer cyfyngedig o slotiau opsiwn oedd ar gael yn sgil gofynion y Fagloriaeth Gymraeg a Chymraeg gorfodol:

» *Mae disgyblion nawr yn ystyried Cymraeg fel eu hopsiwn iaith.*

» *Cyn cyflwyno Cymraeg gorfodol roedd gyda ni ddau ddosbarth o 20+. Bellach mae'r disgyblion yn ystyried fod Ffrangeg yn llai pwysig na Chymraeg. Er hynny, maen nhw'n dweud petai gyda nhw'r opsiwn i ddewis iaith y byddai'n well ganddynt astudio iaith dramor.*

Ynghlwm wrth hyn, roedd tua hanner yr ysgolion lle gwelwyd dirywiad yn y nifer sy'n dewis ieithoedd rhyngwladol yn dweud mai'r rheswm am hyn yw bod ITM yn anodd yn gyffredinol a bod y TGAU newydd yn benodol yn rhy anodd o'i gymharu â phynciau eraill[23]:


» *Mae dirnadaeth fod TGAU ITM yn rhy anodd. Mae'r 'si' fod y fanyleb newydd yn rhy anodd yn lledaenu.*

» *Mae'r cwrs TGAU newydd yn heriol iawn.*

Y rhesymau eraill a nodwyd oedd, nad oedd darparu cwrs ar gyfer cyn lleied o ddisgyblion yn ymarferol, llai o amser dysgu yng Nghyfnod Allweddol 3 ac ysgolion yn cyflwyno'r broses o ddewis opsiynau ynghynt – ym Mlwyddyn 8.

» *Y cohort yma yw'r grŵp blwyddyn cyntaf a ddewisodd eu hopsiynau ar ddiwedd Blwyddyn 8, ac mae hynny wedi dylanwadu ar y dirywiad yma ym Mlwyddyn 10. Am gyfnod hir – dros saith mlynedd – roedd cyfartaledd o 50% o ddisgyblion yr ysgol yn dewis ITM; ond rydyn ni'n teimlo fod cyflwyno'r broses o ddewis opsiynau yn gynharach wedi cael effaith negyddol ar ein disgyblion Blwyddyn 10 presenol gan na chawsant gymaint o amser gyda'r Trywyddau Dysgu na chyfle i glywed sgyrsiau am yrfaoedd ym maes ieithoedd a drefnir fel arfer ym Mlwyddyn 9.*

Cyfeiriodd ysgolion lle gwelwyd cynydd yn nifer y disgyblion sy'n dewis ITM at ddylanwad newidiadau mewnol fel amserlennu a newidiadau a wnaed i'r colofnau opsiynau:




» *Drwy 'setio' yng Nghyfnod Allweddol 3 rydyn ni wedi gallu ymestyn disgyblion Mwy Abl a Thalentog (MAT).*

» *Mwy o wersi CA3, felly mwy o hyder yn y pwnc.*

Cafwyd cydnabyddiaeth hefyd o gyfraniad asiantaethau allanol gan gynnwys cynllun Dyfodol Byd-eang, Llwybrau at Ieithoedd (Cymru), prifysgolion a siaradwyr o fyd busnes:

» *Mae gweithgareddau Dyfodol Byd-eang i hybu ieithoedd wedi bod yn ddefnyddiol ac wedi annog disgyblion i ddal ati gyda ITM.*

» *Mae'r disgyblion yn mwynhau dysgu Sbaeneg ac mae siaradwyr all-gwricwlaidd yn eu helpu i ddeall gwerth astudio ITM.*

**PROFFILIAU DISGYBLION TGAU**

Gofynnwyd i'r ysgolion nodi pa ddisgyblion oedd yn fwyaf ac yn lleiaf tebygol o ddewis astudio iaith dramor fodern ar gyfer TGAU. Mae eu hatebion yn dangos fod dosbarthiadau TGAU mewn ieithoedd yn amlygu rhaniadau ar sail academaidd a chymdeithasol-economaidd: Mae gorgynrychiolaeth o ddisgyblion cyrhaeddiad uchel a chyrhaeddiad canolig yn nosbarthiadau ITM mwyafrif yr ysgolion a thangynrychiolaeth o ddisgyblion cyrhaeddiad isel.

Mae tangynrychiolaeth o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn 46% o'r ysgolion, tra bod gorgynrychiolaeth o ddisgyblion sydd ddim yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (h.y. yn dod o gefndiroedd mwy cefnog) mewn 27% o'r ysgolion.

Yn ogystal, mewn ysgolion lle mae'r disgyblion yn gwneud yn dda yn Gymraeg, mae'n fwy tebygol y bydd gorgynrychiolaeth ohonynt yn nosbarthiadau TGAU ITM; tra bod tebygolrwydd uwch y bydd tangynrychiolaeth o ddisgyblion sydd â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol. Mae tangynrychiolaeth o ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig neu Anableddau yn nosbarthiadau TGAU ITM 60% o'r ysgolion.



23 Adleisir y pryder fod TGAU yn rhy anodd yn Lloegr hefyd (*'Language Trends 2019, Language Teaching in Primary and Secondary Schools in England'*. British Council, 2019.)

**ACHREDIAD**

Gofynnwyd i'r ysgolion nodi'r achrediad a gynigir ganddynt ar gyfer ieithoedd, a gofynnwyd am eu sylwadau am ba mor addas yw'r achrediad hwnnw. Roedd 30% o'r holl sylwadau yma'n tynnu sylw at ba mor anaddas yw'r TGAU newydd ar gyfer rhai o'r disgyblion neu'r disgyblion i gyd ac effaith hynny ar y nifer sy'n dewis ieithoedd:

» *Yn gynyddol mae TGAU yn profi'n anaddas ar gyfer disgyblion â gallu canolig neu isel. Mae arholiadau gwrando a darllen diweddar yn dangos fod rhanau o'r gwaith hyd yn oed y tu hwnt i afael y disgyblion mwyaf galluog.*

» *Nid yw'r TGAU newydd o fewn cyrraedd gallu'r disgyblion gwanach. Roedd papurau eleni'n arbennig o anodd ac mae hynny eisoes wedi bod yn ergyd i nifer o'n darpar ddisgyblion Lefel A gan fod cymaint wedi eu digalonni gan brofiad mor negyddol.*

» *Rydyn ni'n hoffi'r TGAU newydd gan fod y disgyblion yn gallu siarad yr iaith erbyn diwedd y cwrs, ond mae'n dalcen caled iawn i'r disgyblion is eu gallu – hyd yn oed yn y cyfnod sylfaen.*

Sylwadau am faint o gynnwys sy'n rhaid ei ddysgu a pha mor anodd yw'r tasgau sy'n rhaid eu cyflawni:

» *Fel adran rydyn ni'n teimlo fod gormod o gynnwys ym manyleb y TGAU newydd; mae gan yr arholiad llafar yn arbennig ormod o elfennau. Nid yw hyn yn gwneud ein pwnc yn atyniadol.*

» *Mae'r TGAU newydd yn llawer gwell, ond mae gormod o gynnwys. O ganlyniad, mae'n anodd cwblhau'r cwrs a gosod sylfaen gadarn mewn gramadeg.*

Ategwyd y sylwadau yma gan y sylwadau a ddaeth i law am Lefel AS/A:

» *[...] nid yw'n fawr gwell na'r hen gwrs. Ond mae'r cwrs AS yn llawer rhy drwm ac mae'n gadael llai i'w gyflawni ar gyfer Lefel A. O ganlyniad, mae perygl na fydd rhai disgyblion yn parhau gydag ITM hyd Lefel A.*

» *Mae dirnadaeth fod TGAU/Lefel A yn anodd iawn gan nad oes gwaith cwrs ac am fod cymaint o themâu i'w dysgu. Mae'n ymddangos fod y disgyblion yn gorfod dysgu llawer o'r cynnwys ar eu cof (geirfa, gramadeg ayb) sydd ddim i'w weld yn digwydd gyda phynciau eraill.*

Mae saith ysgol yn cynnig Cyfathrebu Busnes Byd-eang (Lefel 1 a 2). Roedden nhw'n teimlo fod y cymwysterau yma'n addas ond, gan fod cyn lleied yn dewis ITM roedden nhw'n ei chael hi'n anodd llenwi'r cyrsiau:

» *[...] yn anffodus, doedd dim digon o ddiddordeb i gyfiawnhau rhedeg y naill gwrs na'r llall am y ddwy flynedd nesaf.*

Dywedodd ysgolion eraill y byddai diddordeb ganddynt i gynnig Cyfathrebu Byd-eang, ond roeddent hefyd yn adleisio'r un pryderon am ddenu disgyblion:

» *Fe wnaethom ni edrych ar Gyfathrebu Busnes Byd-eang ac fe drafodwyd ei gynnig fel dewis arall yn lle TGAU - yn y gobaith y byddem ni'n gallu rhedeg 2 gwrs; ond nid oedd digon o ddisgyblion yn dewis ieithoedd i ni allu cynnal y ddau gwrs ac nid oedd Tîm Arwain yr ysgol yn fodlon cynnig y cwrs busnes yn lle TGAU.*

» *Fe fyddwn ni'n edrych ar gynnig Cyfathrebu Busnes Byd-eang flwyddyn nesa fel dewis posib yn hytrach na TGAU. Ond, gan nad oes digon o ddisgyblion yn dewis ieithoedd, mae'n anodd cynnig y ddau gymhwyster.*

» *Rydyn ni'n ystyried cynnig Busnes Byd-eang ond yn poeni na fydd yn gymhwyster addas o ran helpu disgyblion i fynd i brifysgol.*

» *Ni ystyrir fod Cyfathrebu Busnes Byd-eang yn berthnasol o ran datblygu gyrfaoedd disgyblion.*

Ymysg cymwysterau ITM eraill a gynigiwyd gan ysgolion roedd: cymwysterau ieithoedd Fframwaith Credydau a Chymwysterau (QCF) (2 ysgol), TGAU Rhyngwladol (IGCSE) (1 ysgol) a chymwysterau HSK mewn Tsieinëeg (2 ysgol), ond ni chafwyd sylwadau am unrhyw un o'r rhain.

**MANTEISIO AR GYNLLUN DYFODOL BYD-EANG**

Nododd 88% o'r ysgolion eu bod wedi manteisio ar rhyw elfen o gynllun Dyfodol Byd-eang Llywodraeth Cymru trwy weithgareddau a drefnwyd gan eu Consortiwm Lleol/ Canolfan Rhagoriaeth a phartneriaid cysylltiedig (ee sefydliadau iaith, prifysgolion). Mae hwn yn debyg iawn i gyfran llynedd (87%).

Mae mwyafrif yr ysgolion (58%) yn credu fod Dyfodol Byd-eang wedi gwella sefyllfa ITM, ond roedd ychydig dros hanner yn dweud mai dim ond gwella 'rhywfaint' ar y sefyllfa wnaeth y cynllun. Nododd 42% mai dim ond 'ychydig iawn' o welliant a welwyd ganddynt neu na welwyd 'dim' gwelliant o gwbl yn sgil gweithgareddau'r cynllun. Fodd bynnag, roedd galw aruthrol (95%) am gynlluniau a fydd yn parhau i gefnogi ITM a chynnig y math o ddarpariaeth y mae Dyfodol Byd-eang yn ei gynnig ar hyn o bryd, ac fel yr oedd CILT Cymru yn arfer ei gynnig. Roedd llawer o'r ymatebion i'r cwestiwn yma'n cyfeirio at gyd-destun ehangach y drafodaeth a'r angen am fwy o gefnogaeth i ITM yn ogystal â hyrwyddo pellach:

» *Mae angen llawer mwy o hyrwyddo gwerth dysgu ITM a gwerth hynny i'r economi. Prin yw'r sylw sy'n cael ei roi i ITM ac nid yw'n cael ei ystyried yn faes sy'n werth ei astudio.*

» *Mae'r nifer sy'n dewis ITM yn dirywio ac mae llawer o ysgolion yn colli iaith (Almaeneg yn enwedig). Mae angen cymaint o gefnogaeth â phosib arnom i sicrhau fod ITM yn cael eu hybu.*

» *Mae angen hyd yn oed mwy o help nawr yng nghysgod Brexit ac agweddau negyddol posib tuag at ieithoedd.*

Nododd yr ysgolion a ymatebodd fod effaith Dyfodol Byd-eang wedi cael ei gyfaddawdu gan ffactorau eraill fel diffyg ariannu a'r drefn arholiadau:

» *Mae Dyfodol Byd-eang wedi cynnig llawer o gefnogaeth i adrannau, ond yn y pendraw, os yw'r arholiad yn rhy anodd, does dim diddordeb gan y disgyblion.*

» *Mae hwn yn fater ehangach – os nad yw'r llywodraeth, sefydliadau addysgol, byd busnes a phenaethiaid ysgol yn pwysleisio pwysigrwydd ITM yn benodol (nid dwyieithrwydd yn unig), does dim gobaith gyda ni o fynd i'r afael â'r amharodrwydd cyffredinol yma i ddewis TGAU anodd, sy'n gofyn paratoi ar gyfer 4 arholiad gwahanol, gwaith ar draws 18 o themâu a gwybodaeth ramadegol drylwyr.*

» *Gan amlaf mae ysgolion yn awyddus iawn i gymryd rhan a manteisio ond yn anffodus nid oes arweinwyr cefnogol ym mhob ysgol, ac mewn cyfnod lle mae cyllidebau'n crebachu a phob math o bwysau ar ysgolion mae hynny'n golygu ei bod yn amhosib rhoi trefniadau ar waith i ryddhau athrawon ITM fel y gallant fynychu a chymryd rhan mewn digwyddiadau defnyddiol [...] Maen nhw'n daer am gyfleoedd i rwydweithio ac mae cyfarfodydd rhwydweithio'n werthfawr iawn o ran DPP, ond yn anffodus bu cydlynnu cyfarfodydd eleni bron yn amhosib.*

Ategwyd hyn gan ymatebion eraill yn galw am fesurau ychwanegol:

» *Mae angen i'r Tîm Arwain a'r sir drin ITM fel pwnc pwysig yn enwedig yn yr hinsawdd wleidyddol bresennol. Mae angen gwneud mwy i fynd i'r afael â delwedd ITM fel pwnc sy'n rhy anodd yn ogystal ag edrych ar gynnwys arholiadau TGAU - yn enwedig y lefel sylfaen.*

» *[...] mae ein sefyllfa'n gwaethygu'n enbyd. Yn y gorffennol byddai disgyblion talentog wedi dewis Ffrangeg, ond nid yw hynny'n digwydd bellach – maen nhw'n mynd am y dewis hawdd. Nid yw ein hysgol yn frwd wrth hybu ieithoedd er gwaetha fy ymdrechion, ac ers i arweinydd ein consortiwm rhanbarthol adael rydym wedi bod yn brin o ran cyfeiriad, cefnogaeth a datblygu adnoddau.*

» *Mae angen dweud yn ffurfiol wrth Dimoedd Arwain fod yn rhaid iddyn nhw gefnogi ITM. Gyda'r cwricwlwm newydd mae'n hanfodol fod yr un faint o amser cwricwlwm yn cael ei neilltuo ar gyfer ieithoedd ag ar gyfer Saesneg a Chymraeg.*

» *Nid ar lefel athrawon yn y dosbarth yn unig mae angen i ni weithio. Os ydyn am weld newid gwirioneddol, mae angen trefn ariannu sy'n rhoi mwy o arian i ysgolion po fwyaf o'u ddisgyblion sy'n dewis ITM. Yna, fe fydd penaethiaid yn hybu mwy arno yn eu hysgolion.*

Roedd canmoliaeth hefyd i waith Dyfodol Byd-eang ac i waith blaenorol CILT Cymru:


» *Mae angen i ni weld yr asiantaethau'n parhau i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion gael profiadau cyffrous wrth ddysgu ieithoedd ac mae angen arian gan Lywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad proffesiynol a chyfleoedd rhwydweithio i staff a chyfarfodydd cyson rhwng athrawon.*

*Hyd yn oed gyda chefnogaeth Dyfodol Byd-eang a'r cynydd ym mhroffil ITM a'r gefnogaeth ar ei gyfer, mae nifer y disgyblion sy'n dewis ITM yn dal i ddirywio. Mae angen parhau'r gwaith da sydd wedi dechrau i'n helpu i dyfu o nerth i nerth a cheisio stopio'r dirywiad yn nifer y disgyblion sy'n dewis ieithoedd.*

» *Rwy'n gweld eisiau'r gefnogaeth yr oeddem ni'n arfer ei gael gan CILT Cymru yn fawr iawn. Roedd y cydlynwyr yn dod i adnabod ysgolion penodol a'r athrawon yn dda iawn ac felly'n gallu awgrymu syniadau a oedd yn addas ar gyfer yr ysgol honno.*

Ychwanegodd yr ymatebydd yma fod cefnogaeth o fyd addysg uwch neu gefnogaeth a gydlynwyd gan ysgolion sy'n gwneud yn dda yn aml yn colli golwg ar yr heriau sy'n wynebu ysgolion uwchradd (11-16 oed) mewn ardaloedd difreintiedig.

I ba raddau mae'r ysgolion a ymatebodd yn ystyried fod Dyfodol Byd-eang wedi gwella sefyllfa ITM yng Nghymru?




*Sail = 107*

**RHAGOLYGON ITM YN Y CWRICWLWM NEWYDD**
Tra bod 22% o'r ysgolion yn teimlo'n optimistaidd am hyn, mae bron i hanner ohonynt yn meddwl ei bod yn anhebygol y bydd y cwricwlwm newydd yn gwella sefyllfa ITM yng Nghymru.

Yn ystadegol, yr ysgolion hynny â llai o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim sy'n fwyaf amheus am ragolygon ITM yn y cwricwlwm newydd (y rheini a atebodd 'ddim yn debygol o gwbl').

Roedd ysgolion yn teimlo, er bod gan y cwricwlwm newydd botensial, y byddai'n anodd gwireddu hynny yn wyneb statws isel ITM o'i gymharu â Saesneg a Chymraeg, ynghyd â llai o amser yn y cwricwlwm a'r hyn a ystyrid ganddynt yn arholiadau mwy anodd:

» *Daw ITM yn drydydd clir iawn ar ôl Saesneg a Chymraeg – yn dal i gael ei drin yn israddol ac yn sgil prinder adnoddau ychydig iawn o ysgolion sy'n rhoi dewis o fwy nag 1 ITM i bob grŵp blwyddyn; llai a llai o amser cwricwlwm...ac er hynny, yn dal yn un o'r pynciau TGAU (a lefel A) mwyaf anodd.*

» *Rydyn ni'n ysgol arloesi ac wedi bod yn cyflawni'r rôl honno am dair blynedd gyda golwg ar y cwricwlwm newydd. Rydyn ni'n gweld gostyngiad yn y nifer sy'n dewis iaith ar gyfer y flwyddyn nesaf.*

» *Does byth ddigon o amser cwricwlwm. Dim dealltwriaeth o sut i gyplysu'r tri math o addysgu a dysgu iaith - gan mai athrawon Cymraeg a Saesneg yn unig sy'n rhan o'r broses does dim dealltwriaeth o sut y gellir cynnwys ITM fel rhan o'r cwlwm. Maen nhw'n credu eu bod yn gwybod, ond dydyn nhw ddim.*

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo y gallai ITM gael ei golli fel pwnc neu gael ei ddysgu gan athrawon heb arbenigedd yn unig ac roedd galwadau i sicrhau fod atebolrwydd ynghylch ITM yn rhan annatod o'r system:


» *Ni fyddwn ni'n gweld gwelliant nes bod ITM neu'r nifer sy'n ei ddewis yn un o'r meini prawf ar gyfer perfformiad ysgolion, fel gyda'r pynciau craidd. Yn anffodus, ni fydd y sefyllfa'n newid cyn hynny.*

» *Mae angen gwneud ITM yn bwnc STATUDOL er mwyn i hyn lwyddo.*

**PARATOI AR GYFER Y CWRICWLWM NEWYDD**
Mae bron i chwarter (23%) yr adrannau ITM wedi gwneud newidiadau'n barod ar gyfer y cwricwlwm newydd, ac mae gan gyfran is (14%) gynlluniau ar y gweill a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn nes ymlaen. Mae 31% arall wedi bod yn trafod ond heb ffurfio unrhyw gynlluniau cadarn eto ac mae cyfran debyg (32%) heb wneud unrhyw baratoadau eto.


Rhannwyd manylion pellach gan bedwar deg o athrawon am y newidiadau a oedd yn digwydd neu oedd ar y gweill ganddynt. Roedd y paratoadau mwyaf cyffredin ar gyfer y cwricwlwm newydd yn cynnwys cydweithio agosach gydag adrannau Saesneg a/neu adrannau Cymraeg (35%) yn ogystal â chreu cysylltiadau traws-gwricwlaidd ehangach yn yr ysgol ar gyfer gwaith prosiect neu feithrin cysylltiadau gyda'r Fframweithiau Digidol neu'r Fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd (30%):

Yn eich barn chi, pa mor debygol yw'r cwricwlwm newydd o wella sefyllfa ITM yng Nghymru wrth ystyried fod ieithoedd rhyngwladol yn rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu?




*Sail = 107*

Hyd yma, i ba raddau mae eich adran ITM wedi bod yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd?




*Sail = 107*

» *Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n agosach gyda'r adran Gymraeg i sicrhau gwelliannau o ran addysgeg. Hefyd rydyn ni wedi bod yn edrych ar sut y gallwn gynnig gwell cefnogaeth i'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol/Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.*

» *Tasgau Fframwaith Cymhwysedd Digidol; cynllunio gyda'r adran Gymraeg i gydlynnu sut yr ydym yn dysgu gramadeg; tasgau Rhifedd a Llythrennedd.*

Roedd rhai ysgolion yn gallu rhoi disgrifiad mwy manwl o'r math o weithgareddau a ddeilliodd wrth greu cysylltiadau:

» *Mae gwersi triphlyg yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno fel treialon unwaith y flwyddyn gan athrawon Saesneg/Cymraeg ac ITM.*

» *Ffocws ar sgiliau traws-iaith, gramadeg, cystrawen ayb yn ogystal â symud oddi wrth destunau "traddodiadol".*

» *O ran ein cynlluniau ar gyfer Cynllun Gwaith eleni, rydyn ni wedi ceisio cynnwys y 4 pwrpas lle'r oedd hynny'n briodol. Mae Blwyddyn 3 yn dilyn Cynllun Gwaith tair iaith i'w hannog i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol; Mae Blwyddyn 8 yn mynd i ddatblygu prosiect gyda golwg ar y cwricwlwm newydd. Mae Blwyddyn 9 eisoes yn gweithio ar brosiect ar gymhwyseddau digidol a rhifyddol.*

» *Prosiect ar Gynaliadwyedd a'r Cefnforoedd ym Mlwyddyn 7 ac 8 mewn tair iaith. Mwy o weithgareddau diwylliannol. Darganfod mwy am ieithoedd. Edrych ar ieithoedd mewn cyd-destun rhyngwladol. Ffocws ar Affrica, mentrau amgylcheddol yng Ngogledd Ffrisia. Tynnu cymhariaethau. Defnyddio creadigrwydd. Stribedi comig Ffrangeg drwy storyboardthat.com, adnoddau darllen gwreiddiol, dysgu am ddathliadau a gwyliau rhyngwladol.*

### SAFBWYNTIAU AR DDATBLYGU ITM MEWN YSGOLION CYNRADD

Nododd tua 40% o'r ysgolion uwchradd fod o leiaf un o'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo yn cyflwyno rhyw fath ddarpariaeth dysgu ieithoedd rhyngwladol. Mae hynny'n gynydd ers 2018 lle'r oedd 31% o'r ysgolion uwchradd yn nodi bod eu hysgolion bwydo yn 'cyflwyno rhywfaint o iaith newydd'. Mae hyn yn ategu tystiolaeth yr arolwg cynradd (gweler t.13) fod mwy o ysgolion cynradd yng Nghymru'n dechrau cynnwys rhyw elfen o ieithoedd rhyngwladol yn eu cwricwla.

Rhannwyd manylion pellach gan bedwar deg dau o ysgolion am natur dysgu ieithoedd rhyngwladol yn yr ysgolion cynradd sy'n eu bwydo. Nododd traean ohonynt (14) eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â hyn, er enghraifft:

» *Rydyn ni'n rhedeg cynllun pontio ITM ar gyfer ysgolion cynradd am y tro cyntaf eleni. Rydyn ni'n gobeithio datblygu hwn ymhellach (cyfrwng Cymraeg).*

» *Rydw i'n cyflwyno gwersi Siapaneg.*

» *Mae ein hathrawon ITM, yn eu tro, yn rhoi gwers am awr bob wythnos yn yr ysgolion cynradd sy'n ein bwydo.*

Roedd gan ysgolion 3 - 16 fantais arbennig wrth gynllunio a chyflwyno eu darpariaeth ieithoedd; cafwyd sylwadau tebyg i'r isod gan dri o ysgolion ein sampl:

» *Rydyn ni'n ysgol 3 - 16, felly mae ein disgyblion yn cael gwersi Sbaeneg o'r cyfnod meithrin ymlaen.*

Cafwyd sylwadau gan fwy na thraean yr ysgolion (16) am gyfyngiadau eu darpariaeth gan mai dim ond cyflwyniad byr ac elfennol iawn y gellid ei gynnig, fel clwb 'gwirfoddol', ac weithiau roedd rhaid i'r rhieni dalu amdano; neu gan mai dim ond un neu ddau o blith nifer fawr o ysgolion bwydo sy'n gallu cymryd rhan mewn menter o'r fath:

» *Mae rhai ysgolion yn gallu cyflwyno rhywfaint o gynnwys iaith fel rhan o bob testun, ond mewn pytiau byr yn unig mae hynny'n digwydd.*

» *Un neu ddau'n unig – mae gyda ni dros 10 o ysgolion bwydo. Ystod gyfyng iawn o wybodaeth a gyflwynir i'r disgyblion; nid yw hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o drefn yr amserlen. Mae ysgolion cynradd yn gwneud eu gorau gydag adnoddau prin iawn.*

» *Rydyn ni'n cynnig rhai clybiau a chyfleoedd untro yn ysbeidiol .*

Ond, cafwyd tystiolaeth hefyd o gyflwyno gweithgareddau, prosiectau a chynlluniau peilot newydd ac addawol:

» *Mae dwy ysgol yn ein dalgylch yn gweithio gyda staff o [ysgol] i ddatblygu model mwy annibynnol ar gyfer cyflwyno darpariaeth ieithoedd: Mae staff uwchradd yn hyfforddi staff cynradd.*

» *Fel ysgol sy'n Ganolfan Rhagoriaeth, rydyn ni wedi gweithio'n galed i ddatblygu prosiect cynradd gyda phob un o 8 ysgolion cynradd y clwstwr.*

» *Rydyn ni wedi rhedeg cynllun peilot gydag adnodd 'Power Language Platform' yn ein hysgolion cynradd. Fe wnaethom ni redeg cynllun peilot am flwyddyn ac rydym hefyd wedi tanysgrifio i ddefnyddio'r adnoddau am flwyddyn. Mae hyn yn rhoi mynediad i athrawon i 20 o goflenni ymatebol yn ogystal â'r adnoddau cynllunio. Mae'r cynllun yn darparu'r holl adnoddau dysgu a'r ffeiliau sain.*

» *Mae pob ysgol gynradd yn ein dalgylch yn cyflwyno gwers Sbaeneg/Ffrangeg bob wythnos.*

A ydy eich ysgol yn cydweithio mewn unrhyw ffordd o ran dysgu ieithoedd rhyngwladol gyda'r ysgol gynradd sy'n eich bwydo?

| Math o gydweithredu | Nifer yr ysgolion |
|---|---|
| Rydyn ni'n cyfnewid gwybodaeth yn anffurfiol i helpu gyda'r gwaith pontio i Gyfnod Allweddol 3 | 7 |
| Rydyn ni'n mynd i mewn i un neu fwy o ysgolion i ddarparu dysgu allgyrch i ddisgyblion cynradd | 21 |
| Rydyn ni'n danfon ein disgyblion i mewn i ysgolion cynradd i ddarparu cyflwyniad i ieithoedd rhyngwladol | 6 |
| Rydyn ni'n darparu hyfforddiant i athrawon cynradd | 6 |
| Rydyn ni'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi/rhwydweithio ar y cyd ag athrawon cynradd | 3 |
| Rydyn ni'n cydweithio gydag un neu ragor o ysgolion cynradd er mwyn cynllunio unedau gwaith | 1 |
| Rydyn ni'n cydweithio mewn ffyrdd eraill | 31 |
| Ni fu unrhyw gysylltiadau o ran ieithoedd rhyngwladol rhyngom ni ag ysgolion bwydo cynradd | 58 (54%) |

*Sail = 107. Gellid rhoi mwy nag un ateb*

Mae 46% o'r ysgolion uwchradd yn nodi fod ganddynt gysylltiadau ym maes ITM/ieithoedd rhyngwladol gyda'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo. Mae'r gyfran yma ychydig bach yn is na blynyddoedd blaenorol (48% yn 2018 a 2016, 49% y 2017). Dysgu allgyrch yw'r cyfrwng mwyaf cyffredin o feithrin y cyswllt yma. Nodir amrywiaeth eang o wahanol fathau o gydweithio, ond gan nifer fach o ysgolion.

Roedd enghreifftiau eraill o gydweithio'n cynnwys:


» *Daw disgyblion o'r ysgolion cynradd sy'n ein bwydo atom am sesiwn ragflas o ITM.*


» *Rydyn ni'n trefnu Gŵyl Ieithoedd ar gyfer yr ysgolion cynradd. Mae asiantaethau allanol yn rhan o'r trefniant ac mae athrawon ITM o ysgolion uwchradd yn cyflwyno rhai gwersi.*

» *Prosiect ERW yn cynnwys Sbaeneg a Chelfyddydau Mynegiadol[24], gyda Disgyblion sy'n Llysgenhadon Iaith (Blwyddyn 8) o [enw'r ysgol] a disgyblion Mwy Abl a Thalentog (MAT) o Flynyddoedd 5 a 6 yr ysgolion bwydo cynradd.*

**DARPARIAETH ÔL-16**

Mae disgyblion Ôl-16 gan ychydig yn llai na dwy ran o dair (63%) o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd i'r arolwg. Mae 90% ohonynt yn cynnig cyrsiau AS a/neu A2 mewn ITM, ac mae chwarter ohonynt yn gwneud hynny drwy drefniant ar y cyd gydag ysgolion eraill. Ond, nododd 39% o'r ysgolion hyn, naill ai nad oedd neb wedi dewis ITM neu nad oedd unrhyw ddarpariaeth ITM ganddynt.




*Sail yn 2019 = 60[25]*

Mae ffigurau eleni'n cadarnhau mai nifer isel sy'n dewis ieithoedd yn y cyfnod Ôl-16 a bod y ffigurau'n dal i ddirywio. Mae ymarferoldeb cynnal cyrsiau yn ystyriaeth arwyddocaol gan fod cyn lleied yn dewis y pwnc.

Mae 28% o'r ysgolion sy'n cynnig cyrsiau Ôl-16 mewn ieithoedd yn nodi nad oes unrhyw ddisgyblion wedi eu dewis. Mae mwyafrif llethol yr ysgolion sy'n cynnal cyrsiau hefyd yn nodi mai nifer fach iawn o ddisgyblion sy'n eu dewis. Dim ond wyth o'r ysgolion (12% o'r rheini â disgyblion Ôl-16) a nododd fod ganddynt fwy na 5 o ddisgyblion yn cymryd A2, a dim ond 12 o ysgolion (18%) a nododd fod mwy na 5 yn cymryd AS.

Sylwadau ymatebwyr:

» *Llynedd, am y tro cyntaf, yn sgil y dirywiad mewn niferoedd a diffyg ariannu, wnaethom ni ddim cynnal y cwrs AS Sbaeneg; ac o fis Medi ni fyddwn yn cynnal cyrsiau AS Sbaeneg na Ffrangeg, ac ni fydd A2 Sbaeneg chwaith. Yn ogystal, hwn fydd y tro cyntaf i ni beidio cynnal cwrs Lefel A Ffrangeg. Hefyd, ein hysgol ni yw'r unig un o ysgolion y cwlwm cydweithredu sy'n cynnig ieithoedd ar gyfer Lefel A, felly rydyn ni'n eithriadol o siomedig.*

» *Mae'n tyfu'n fwyfwy anodd i gynnig cyrsiau ITM i ddisgyblion Ôl-16 gan fod yr uwch dîm rheoli wedi pennu fod angen isafswm o 6 disgybl ar gyfer pob pwnc.*

Mae'r llun isod (ar gyfer Lefel A) yn dangos pa mor fregus yw sefyllfa ITM Ôl-16 wrth ystyried y gyfran uchel iawn (87%) o ysgolion lle nad oes unrhyw ddisgyblion yn dewis ITM neu lle nad oes grŵp digon o faint wedi dewis ITM.

Wrth gymharu ffigurau'r nifer o ddisgyblion Ôl-16 sy'n dewis ieithoedd yn 2019 gyda niferoedd y ddwy flynedd flaenorol (gweler y siart uchod), mae'n amlwg fod cyfran yr ysgolion sydd â nifer isel neu ddim disgyblion o gwbl yn dewis ieithoedd wedi cynyddu, tra bod cyfran yr ysgolion sydd â niferoedd digonol (6 neu ragor o ddisgyblion) wedi dirywio.

Ceir darlun tebyg gydag AS (heb ei ddangos). Ddwy flynedd yn unig yn ôl, roedd 31% o'r ysgolion yn cynnal dosbarthiadau â 6 neu fwy o ddisgyblion, erbyn heddiw mae'r gyfran yn 20%, ac mae'r gyfran o ysgolion lle does dim disgyblion o gwbl yn dewis ITM wedi cynyddu o 26% i 32%.

Mae hanner yr ysgolion sydd â disgyblion Ôl-16 yn nodi fod y niferoedd wedi dirywio dros y tair blynedd ddiwethaf. Ond, mae hynny'n llai o gyfran na 2018 lle nodwyd dirywiad o 65%. Yn 2019, nododd 17% fod y nifer wedi cynyddu o'i gymharu â 6% yn 2018. Fe allai hyn ddynodi fod y dirywiad yn arafu, ond mae'r duedd yn dal tuag i lawr ac yn ddifrifol o serth.

Cyfeiriodd yr ysgolion at gymysgedd o resymau cysylltiedig am y dirywiad yn y niferoeddd Ôl-16. Ceir crynodeb ohonynt yn y sylwadau isod:

» *Yn hanesyddol, mae AS ac A2 mewn ITM yn cael eu hystyried yn ddewisiadau anodd; mae gormod o'n disgyblion yn anelu am lefydd yn y prifysgolion gorau and nid ydynt am ddewis pynciau lle nad ydynt yn sicr, fwy neu lai, o ennill gradd A neu B. Y farn am fanyleb newydd TGAU llynedd oedd ei bod yn anodd – llawer o'r disgyblion yn ofni na fyddan nhw'n gallu ymdopi.*

» *Mae'r gwymp yn y nifer sy'n astudio TGAU yn arwain at ddosbarthiadau llai yn y chweched dosbarth. Mae'r disgyblion yn ystyried fod y cwrs yn anodd.*

» *Rydyn ni'n colli llawer o'n disgyblion i byncia STEM.*[26] *Dewis wrth gefn yw ITM yn amlach na pheidio. Ond dydyn nhw ddim yn gallu gweld y cyswllt o ran sgiliau rhwng ITM ac amrywiaeth o wahanol swyddi. Efallai nad yw'r neges honno ddim mor glir ag y mae gyda gwyddoniaeth a meddygaeth ayb.*

» *Dirnadaeth fod ITM yn anodd yn rhanol gyfrifol, a'r gostyngiad yn yr oriau dysgu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Hefyd, mae gwrthdaro gydag AS Mathemateg wedi effeithio ar y niferoedd. Rydyn ni'n poeni y bydd ieithoedd ar lefel uwch yn diflannu'n llwyr yn enwedig yng ngolau'r awgrym am rannu grwpiau AS ac A2 ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r rhain yn gyrsiau anghymarus felly maen nhw'n gofyn i ni gyflawni'r amhosib. Bydd safonnau'n dirywio.*

» *Ni chaniateir cynnal dosbarthiadau gyda nifer fach o ddisgyblion bellach.*

Mewn achoson lle bu cynnydd yn nifer y disgyblion Ôl-16, mae ymatebwyr yn dweud mai amrywiadau 'blwyddyn i flwyddyn' yw'r rhain, neu 'lwc' neu am fod yr ysgol yn arwain y pwnc yn y consortiwm:

» *Lwc sy'n esbonio hyn – roedd y disgyblion sy'n mwynhau ieithoedd yn digwydd bod yn rhan o'r grwpiau blwyddyn hyn.*


» *Am ein bod ni'n ganolfan rhagoriaeth chweched dosbarth ac mai hwn yw'r unig chweched dosbarth y gall disgyblion ein consortiwm ei fynychu.*

24 Prosiect dysgu creadigol yw **Cerdd Iaith/Listening to Language** sy'n integreiddio cerddoriaeth a dysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd yn Ne a Gorllewin Cymru. Mae partneriaid y fenter yn cynnwys British Council Cymru, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Yr Athrofa – Y Sefydliad dros Addysg ac Ein Rhanbarth ar Waith (ERW).

25 Rhif Sail nifer yr ysgolion a oedd yn cynnig cyrsiau ITM Ôl-16 mewn blynyddoedd eraill,16: 69; 2017: 66; 2018: 65.

26 Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg.

Yn eich barn chi, pa rai o'r ystyriaethau canlynol (os o gwbl) sy'n heriau i ddarparu profiad dysgu ITM o ansawdd uchel i ddisgyblion yn eich ysgol?




*Sail = 106. Gellid rhoi mwy nag un ateb*

Roedd un ymatebydd, o ysgol a oedd wedi llwyddo i danio diddordeb yn 2019 i lefel na welwyd ei debyg erioed o'r blaen yn sgil 'canlyniadau da yn y flwyddyn flaenorol a strategaethau sbarduno gan yr adran', yn cwyno fod arholiadau TGAU eleni wedi bod yn brofiad mor annifyr i'r disgyblion bod disgwyl bellach y byddai llawer ohonynt yn newid eu meddyliau:

» *Ni fydd y gwaith yma'n cael cyfle i ddwyn ffrwyth oherwydd y profiadau gwael a gafodd y disgyblion gyda phapurau Gwrando a Darllen CBAC. Mae athrawon yn teimlo fod CBAC wedi eu bradychu. Er gwaethaf ein holl waith da, maen nhw'n datod y cyfan wrth osod cwestiynau sydd mor anodd nes eu bod y tu hwnt i afael y mwyafrif heblaw am rai disgyblion dethol.*

**Y PRIF HERIAU SY'N WYNEBU YSGOLION**

Rhoddwyd rhestr o ystyriaethau i'r ymatebwyr. Roedd y rhain yn ystyriaethau a nodwyd yn flaenorol fel heriau tebygol i'r gwaith o ddarparu profiadau dysgu ieithoedd o ansawdd uchel i ddisgyblion o bob oed a lefel. Gofynnwyd iddynt nodi pa elfennau ar y rhestr sy'n heriau yn eu hysgolion.

Daeth yn amlwg mai'r her fwyaf cyffredin i 73% o'r ysgolion oedd natur a chynnwys arholiadau allanol, gyda diffyg amser cwricwlwm ac amserlennu opsiynnau Cyfnod Allweddol 4 yn dilyn hynny. Nodir y tair her yma fel ystyriaethau gan dros ddwy ran o dair o'r ysgolion a ymatebodd.

Nododd 42% o'r ysgolion fod y modd y mae arholiadau'n cael eu marcio a'u graddio yn ystyriaeth arwyddocaol. Mae hynny'n gyfran tipyn is nag a welir yn Lloegr a Gogledd Iwerddon lle nodwyd fod 'graddio llym' a materion yn deillio o hynny yn her allweddol.[27]

Mae profiadau ymatebwyr yng Nghymru'n awgrymu fod ystyriaethau staffio, gan gynnwys gallu manteisio ar gyfleoedd Datblygu Proffesiynol Parhaus, ymysg yr heriau lleiaf difrifol, tra bod oblygiadau Brexit yn her i leiafrif sylweddol o'r ymatebwyr (41%).


Nodwyd amrywiaeth o heriau eraill gan gynnwys y ffocws ar bynciau craidd, cwrs cyflawn gorfodol TGAU Cymraeg, cwtogi oriau dysgu, prinder athrawon arbenigol, dysgu gallu cymysg ar gyfer TGAU, dewis opsiynau flwyddyn yn gynharach, 'dylanwad rhieni a dylanwadau cymdeithasol a diwylliannol':

» *Ieithoedd yn cael eu diystyri - yn gyffredinol - yn genedlaethol, a disgyblion yn ymeithrio cyn iddyn nhw hyd yn oed ddewis eu hopsiynau.*

**EFFAITH BREXIT**

Wrth ymateb i gwestiwn pellach yn benodol ar effaith Brexit, nododd 30% o'r ysgolion fod llai o gymhelliad gan eu disgyblion i astudio ITM. Ni nododd unrhyw ysgol weld cynydd yng nghymhelliad eu disgyblion yn sgil proses Brexit. Dywedodd tua thraean (34) fod ymateb eu disgyblion yn gymysg, tra'r oedd 45% yn dweud nad oeddent wedi gweld unrhyw effaith benodol ar gymhelliad eu disgyblion i astudio ieithoedd.

I ba raddau ydych chi'n teimlo fod uwch dîm rheoli eich ysgol yn gefnogol o ITM?




0 = ddim yn gefnogol o gwbl, 10 = yn gefnogol iawn

*Sail = 106*

**AGWEDDAU UWCH ARWEINWYR YSGOL AT ITM**

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi i ba raddau yr oedd uwch dîm arwain eu hysgol yn gefnogol i ITM. Mae'r canlyniadau'n dangos fod yr agwedd at ITM yn gefnogol ar y cyfan, ond heb fod yn dra chefnogol. Roedd tua thraean yr ymatebion yn dangos fod cefnogaeth weddol gadarn i ITM gan uwch arweinwyr ysgol (yn yr ystod 8-10). Fodd bynnag, dim ond 5.8 oedd canolrif y data.

Sylwadau gan yr ymatebwyr mewn perthynas â hyn:

» *Mae'r adran yn derbyn cawodydd o ganmoliaeth hael ac rydyn ni'n gwneud llawer iawn i hybu ieithoedd a threfnu llawer o weithgareddau a digwyddiadau. Mae yna deimlad fod ieithoedd yn bwysig, ac rwy wedi cael sicrwydd y bydd hynny'n cael ei gynnal a'i ddiogelu, and am ba hyd fydd hynny'n wir os yw'r niferoedd yn dirywio?*

» *Maen nhw'n arbennig o gefnogol - ond dim ond hyn a hyn y gallant ei wneud yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni ac wrth ystyried y dirywiad yn y nifer sy'n dewis ieithoedd.*

» *Bach iawn o ddealltwriaeth sydd gan Uwch Dîm Arwain yr ysgol o natur y pwnc; yn aml heb fawr o gydymdeimlad am ein gofynion am amser cwricwlwm. Nid yw'r Uwch Dîm Arwain yn treulio amser yn yr adran, ac anaml iawn maent yn siarad gyda'r disgyblion am eu profiadau gyda ITM. Fe wnân nhw ein cefnogi os ydyn ni'n dal ati i ofyn a gofyn, ond maen nhw'n gyndyn o wneud, ac nid yw'r gefnogaeth yn barhaus. Mae pob un o athrawon ITM yr ysgol wedi gorfod derbyn cwtogiad yn eu horiau dysgu wedi i'r ysgol ddechrau ar drefniadau diswyddo gorfodol.*

Achubodd ymatebwyr ar y cyfle yma hefyd i ychwanegu sylwadau pellach, yn bennaf i danlinellu pwyntiau a wnaed eisoes am effaith cyfyngiadau ariannol, arholiadau anodd a phryderon am y dirywiad yn nifer y disgyblion sy'n astudio'r pwnc. Cafwyd sylwadau hefyd a oedd yn goleuo ystyriaethau newydd yn cynnwys un am Almaeneg ac un arall am ferched a STEM:

» *Ers mis Medi 2019 nid ydym yn dysgu TGAU Almaeneg am y tro cyntaf yn hanes yr ysgol. Mae cronfa fechan ond sgilgar o athrawon Almaeneg yng Nghymru; ni fydd modd cael athrawon yn eu lle yn y dyfodol os digwydd i'r Llywodraeth sylweddoli'n sydyn fod yr Almaeneg yn iaith masnachu yn Ewrop.*

» *Yn enwedig ymysg merched yng nghyd-destun Lefel A lle mae pwyslais ar bynciau STEM, sy'n golygu fod llawer o ddisgyblion yn astudio'r pynciau hynny'n hytrach nag ieithoedd, yn enwedig disgyblion sydd wedi ennill graddau TGAU A/A* (Cymraeg).*

Ac yn olaf, sylw'n llawn dyhead a gweledigaeth am ddyfodol mwy cadarnhaol i amlieithrwydd yng Nghymru:

» *Fe hoffwn i weld sgiliau ITM ac ieithoedd eraill yn cael eu defnyddio drwy'r ysgol gyfan a chyfleoedd y tu allan i'r ystafell ddosbarth i ddisgyblion ymarfer a defnyddio ITM.*

27 *'Language Trends 2019 (England)'*, t.16 a *'Language Trends Northern Ireland'*, t. 28.

# CASGLIADAU A CHANFYDDIADAU ALLWEDDOL

## YSGOLION CYNRADD

Mae'r dystiolaeth a gafwyd gan yr ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd yn awgrymu fod twf cynyddol yn y diddordeb mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg yn y sector cynradd a bod dulliau newydd o weithio yn cael eu treialu. Ond, rhaid nodi hefyd mai dim ond ymysg lleiafrif o'r ysgolion mae hyn yn digwydd. Bydd hyn yn cynnig sylfaen dystiolaeth bwysig i ddatblygiadau yn y dyfodol, yn ogystal â meithrin yr arbenigedd sy'n angenrheidiol os yw ieithoedd rhyngwladol yn mynd i wreiddio fel rhan sefydledig o faes dysgu'r cwricwlwm newydd ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg, lle gwelir cyfrannau uwch o ddysgu ieithoedd rhyngwladol nag mewn mathau eraill o ysgolion, yn dangos nad oes rhaid i'r Gymraeg ag ieithoedd rhyngwladol gystadlu â'i gilydd, yn hytrach gall dwyieithrwydd sbarduno amlieithrwydd.

Mae ysgolion cynradd yn ymwybodol iawn o'r angen am hyfforddiant a chefnogaeth ac maent yn troi at asiantaethau allanol i lenwi bylchau o ran arbenigedd. Drwy ddibynnu ar arbenigwyr allanol mae perygl y bydd ieithoedd rhyngwladol yn datblygu ar wahân i lwybrau dysgu Saesneg a Chymraeg fel pynciau craidd - yn hytrach na chael eu hintegreiddio yn unol â gweledigaeth y cwricwlwm newydd. Ond, mae'n debyg mae hwn fydd y llwybr mwyaf ymarferol i lawer o ysgolion.

Mae dyhead cryf iawn am weld cefnogaeth bellach i ddatblygu ieithoedd rhyngwladol – o ran faint o ddysgu ieithoedd sy'n digwydd a rhychwant y dysgu hwnnw. Byddai cyfran sylweddol iawn o'r ysgolion sydd eisoes wedi cymryd rhan yn rhai o weithgareddau cynllun Dyfodol Byd-eang yn croesawu cyfle i gymryd mwy o ran mewn hyfforddiant iaith, mentrau datblygu, partneriaethau a rhwydweithio, tra bod nifer fawr iawn o ysgolion cynradd (bron eu hanner yn ôl ein harolwg) hefyd yn nodi nad ydynt eto wedi cael cynnig unrhyw gefnogaeth. Mae'r ysgolion hefyd yn pwysleisio'r angen am gefnogaeth ariannol i ddatblygu ieithoedd rhyngwladol yn ogystal â'r angen am hyfforddiant iaith ar gyfer eu staff presennol.

## YSGOLION UWCHRADD

Yn gyffredinol, ystyrir bod yr arholiadau TGAU a Lefel AS/A newydd yn dipyn anoddach, o ran eu cynnwys a nifer y tasgau y mae gofyn i'r ymgeiswyr eu cwblhau, ac mae hynny wedi bod yn ffactor arall sydd wedi golygu nad yw disgyblion yn defnyddio un o'u ychydig opsiynnau dewis rhydd ar gyfer ITM.

Mae dirywiad y nifer sy'n dewis ITM ar gyfer TGAU yn parhau, a gwelir bwlch cynyddol mewn dosbarthiadau TGAU ITM ar sail rhaniadau academaidd a gwahaniaethau cymdeithasol-economaidd. Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion â chyrhaeddiad is neu sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig neu Anableddau i gyd yn llai tebygol o ddewis astudio iaith.

Hefyd, mae arholiadau TGAU anodd a chanlyniadau siomedig wedi effeithio ar y nifer sy'n dewis ITM Ôl-16. Bu'r ffigurau yma'n ddifrifol o isel ers rhai blynyddoedd ac maent yn parhau i gwympo. Nifer fach iawn o ddisgyblion sydd yn nosbarthiadau'r mwyafrif llethol o gyrsiau ITM Ôl-16. Gan amlaf, mae hynny'n is nag sy'n ymarferol yn ariannol, sy'n golygu eu bod ar fympwy mesurau torri costau yn wyneb y pwysau ariannol cynyddol ar ysgolion.

Gwelwyd cynydd yn nifer y disgyblion sy'n astudio ITM ar gyfer TGAU mewn rhai ysgolion. Roedd hynny'n ganlyniad i ymroddiad yr athrawon a chefnogaeth cynllun Dyfodol Byd-eang - yn enwedig gwaith partneriaid y fenter, a gydnabyddir yn ddiolchgar. Mae lle i sicrhau fod llawer mwy o ysgolion yn cael cyfle i fanteisio ar y math yma o gefnogaeth. Roedd ymatebwyr yr arolwg fwy neu lai'n unfrydol wrth alw am gefnogaeth bellach ar gyfer ITM a chefnogaeth i'w hybu.

Fodd bynnag, cyfyngwyd effaith mesurau o'r fath gan ffactorau eraill ac nid yw'r effaith yn ddigon cyffredinol i ddylanwadu ar y darlun cenedlaethol eto, heblaw o bosib, dangos fod y dirywiad yn arafu rhywfaint. Mae'r ysgolion yn nodi fod cyfyngu opsiynau dewisiadau wedi amharu ar effeithiolrwydd yr ymdrechion i gynyddu nifer y disgyblion sy'n dewis ITM yn ogystal â'r gystadleuaeth gyda phynciau eraill ac amharodrwydd disgyblion i ddewis pwnc sy'n cael ei ystyried yn anodd.

## ITM A'R GYMRAEG

Mae arolwg eleni'n bwrw golau ar gymlethdod y broses o wireddu uchelgais Cymru i fod yn wlad 'ddwyieithog a mwy'. Ar y naill law, mae ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn croesawu ieithoedd rhyngwladol ynghynt nag ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Ar y llall, mae'r ymdrechion i hybu'r Gymraeg mewn ysgolion uwchradd wedi digwydd ar draul ITM. Mae'r ymatebion a dderbyniwyd yn cadarnhau fod cysylltiad rhwng y dirywiad yn nifer yr ymgeiswyr ar gyfer ITM dros y pum mlynedd diwethaf a'r cynydd mewn ymgeiswyr ar gyfer Cymraeg Ail Iaith a gynigir fel cwrs cyflawn yn unig bellach.



Mae tystiolaeth fod paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd eisoes wedi sbarduno cydweithio agosach rhwng adrannau ITM, Saesneg a Chymraeg a gwelwyd enghreifftiau o ddulliau gweithio addawol iawn mewn lleiafrif o ysgolion. Ond, nid oedd ymatebwyr yr arolwg yn obeithiol am ragolygon ITM yn y cwricwlwm newydd wrth nodi mai'r Saesneg a'r Gymraeg sydd flaenaf yn ystyriaethau penaethiaid ysgol.



Rhaid nodi felly mai casgliad cyffredinol adroddiad eleni yw bod difrifoldeb dirywiad ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion uwchradd, ynghyd â'r angen i'w ddatblygu fel pwnc newydd mewn ysgolion cynradd, yn golygu y bydd angen cymhellion a chefnogaeth tipyn mwy na maint a chwmpas presennol cynllun Dyfodol Byd-eang.

# ATODIAD: METHODOLEG YR YMCHWIL A PHROFFIL YR YMATEBION

Cafodd yr holiaduron eu datblygu gan yr ymchwilwyr yn gynnar yn 2019 mewn ymgynghoriad â British Council Cymru (a gomisiynodd yr ymchwil) a chynrychiolwyr rhanddeiliaid gan gynnwys Estyn a Phrifysgol Caerdydd/Llwybrau at Ieithoedd Cymru. Bu ymgynghori hefyd rhwng yr ymchwilwyr a Llywodraeth Cymru yn ogystal ag Arad Research a gyflwynodd adroddiad cydategol ar ieithoedd rhyngwladol yn ysgolion cynradd Cymru. Cafodd y cwestiynnau eu llwytho i fyny, yn ddwyieithog, i blatfform arolygon ar-lein *Survey Monkey* i'w treialu ym mis Mawrth 2019. Danfonwyd gwahoddiad i lenwi'r holiaduron at benaethiaid holl ysgolion cynradd Cymru ac at Bennaeth ITM pob ysgol uwchradd yng Nghymru. Casglwyd yr ymatebion ynghyd rhwng mis Mawrth a mis Mai 2019.

## Ysgolion Cynradd (CYMRU)

### Cyfradd Ymateb

| | Sail | Ymatebion | Ymateb % |
|---|---|---|---|
| Cynradd | 1239 | 155 | 12.5% |

### Proffil Ymatebwyr

| Ystod Oedran | Data crai sylfaenol | Sail % | Ymatebion crai | Ymateb % |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Canol (3 - 16 oed) | 5 | 0.4% | 0 | 0.0% |
| Ysgolion Canol (3 - 19 oed) | 7 | 0.6% | 1 | 0.6% |
| Ysgolion Canol (4 - 19 oed) | 1 | 0.1% | 1 | 0.6% |
| Cynradd (Babanod ac Iau) | 196 | 15.8% | 22 | 14.2% |
| Cynradd (Iau) | 18 | 1.5% | 0 | 0.0% |
| Cynradd (Meithrin, Babanod ac Iau) | 1002 | 80.9% | 129 | 83.2% |
| Dim data | 10 | 0.8% | 2 | 1.3% |

| Consortia Addysg | Data crai sylfaenol | Sail % | Ymatebion crai | Ymateb % |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cymru | 342 | 27.6% | 35 | 22.6% |
| De-orllewin a Chanolbarth Cymru | 405 | 32.7% | 52 | 33.5% |
| Canol De Cymru | 306 | 24.7% | 41 | 26.5% |
| De-ddwyrain Cymru | 186 | 15.0% | 27 | 17.4% |

| Math o ysgol | Data crai sylfaenol | Sail % | Ymatebion crai | Ymateb % |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gymunedol | 1017 | 82.1% | 126 | 81.3% |
| Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir | 131 | 10.6% | 15 | 9.7% |
| Ysgol Wirfoddol a Reolir | 77 | 6.2% | 12 | 7.7% |
| Ysgol Sefydledig | 4 | 0.3% | 0 | 0.0% |
| Dim data | 10 | 0.8% | 2 | 1.3% |

| Iaith | Data crai sylfaenol | Sail % | Ymatebion crai | Ymateb % |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrwng Cymraeg – Cymraeg | 369 | 29.8% | 41 | 26.5% |
| Cyfrwng Cymraeg – Dwyieithog (Math A) | 3 | 0.2% | 1 | 0.6% |
| Cyfrwng Cymraeg – Dwyieithog (Math B) | 2 | 0.2% | 0 | 0.0% |
| Cyfrwng Cymraeg – Dwyieithog (Math C) | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| Cyfrwng Saesneg – Cyfrwng Saesneg | 797 | 64.3% | 103 | 66.5% |
| Cyfrwng Saesneg – Saesneg gyda llawer o Gymraeg | 32 | 2.6% | 1 | 0.6% |
| Trawsnewidiol | 4 | 0.3% | 0 | 0.0% |
| Dwy Ffrwd | 32 | 2.6% | 9 | 5.8% |

| Cwintel cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim | Data crai sylfaenol | Sail % | Ymatebion crai | Ymateb % |
|---|---|---|---|---|
| Uchel | 241 | 19.5% | 25 | 16.1% |
| Canolig - Uchel | 239 | 19.3% | 30 | 19.4% |
| Canolig | 239 | 19.3% | 30 | 19.4% |
| Canolig - Isel | 245 | 19.8% | 27 | 17.4% |
| Isel | 245 | 19.8% | 37 | 23.9% |
| Dim data | 30 | 2.4% | 6 | 3.9% |

## Ysgolion Uwchradd Gwladol (CYMRU)

### Cyfradd Ymateb

| | Sail | Ymatebion | Ymateb % |
|---|---|---|---|
| Uwchradd | 207 | 114 | 55.1% |

### Proffil Ymatebwyr

| Ystod Oedran | Data crai sylfaenol | Sail % | Ymatebion crai | Ymateb % |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Canol (3 - 16 oed) | 5 | 2.4% | 4 | 3.5% |
| Ysgolion Canol (3 - 19 oed) | 7 | 3.4% | 5 | 4.4% |
| Ysgolion Canol (4 - 19 oed) | 1 | 0.5% | 0 | 0.0% |
| Uwchradd (11 - 16 oed) | 54 | 26.1% | 31 | 27.2% |
| Uwchradd (11 - 19 oed) | 130 | 62.8% | 71 | 62.3% |
| Dim data | 10 | 4.8% | 3 | 2.6% |

| Consortia Addysg | Data crai sylfaenol | Sail % | Ymatebion crai | Ymateb % |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cymru | 54 | 26.1% | 31 | 27.2% |
| De-orllewin a Chanolbarth Cymru | 61 | 29.5% | 33 | 28.9% |
| Canol De Cymru | 56 | 27.1% | 31 | 27.2% |
| De-ddwyrain Cymru | 36 | 17.4% | 19 | 16.7% |

| Math o ysgol | Data crai sylfaenol | Sail % | Ymatebion crai | Ymateb % |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gymunedol | 169 | 81.6% | 94 | 82.5% |
| Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir | 19 | 9.2% | 12 | 10.5% |
| Ysgol Wirfoddol a Reolir | 1 | 0.5% | 0 | 0.0% |
| Ysgol Sefydledig | 8 | 3.9% | 5 | 4.4% |
| Dim data | 10 | 4.8% | 3 | 2.6% |

| Iaith | Data crai sylfaenol | Sail % | Ymatebion crai | Ymateb % |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrwng Cymraeg – Cymraeg | 22 | 10.6% | 15 | 13.2% |
| Cyfrwng Cymraeg – Dwyieithog (Math A) | 19 | 9.2% | 12 | 10.5% |
| Cyfrwng Cymraeg – Dwyieithog (Math B) | 12 | 5.8% | 6 | 5.3% |
| Cyfrwng Cymraeg – Dwyieithog (Math C) | 3 | 1.4% | 3 | 2.6% |
| Cyfrwng Saesneg – Cyfrwng Saesneg | 143 | 69.1% | 72 | 63.2% |
| Cyfrwng Saesneg – Saesneg gyda llawer o Gymraeg | 8 | 3.9% | 6 | 5.3% |

| Cwintel cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim | Data crai sylfaenol | Sail % | Ymatebion crai | Ymateb % |
|---|---|---|---|---|
| Uchel | 37 | 17.9% | 19 | 16.7% |
| Canolig - Uchel | 42 | 20.3% | 24 | 21.1% |
| Canolig | 39 | 18.8% | 26 | 22.8% |
| Canolig - Isel | 39 | 18.8% | 20 | 17.5% |
| Isel | 40 | 19.3% | 22 | 19.3% |
| Dim data | 10 | 4.8% | 3 | 2.6% |

© British Council 2019

Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol.